# Gweddnewid Adsefydlu

# Gweithredu Cynnar 3

## Arolygiad annibynnol o'r trefniadau ar gyfer goruchwylio troseddwyr

Hydref 2015

# Gweddnewid Adsefydlu

# Gweithredu Cynnar 3

Arolygiad annibynnol o'r trefniadau ar gyfer goruchwylio troseddwyr

© Hawlfraint y Goron 2015

Gallwch ail-ddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu e-bostiwch psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle'r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deilwyr hawlfraint perthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho ar:

www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation

Cyhoeddwyd gan:
Arolygiaeth Prawf Ei Mawhydi
1st Floor Civil Justice Centre
1 Bridge Street West
Manchester
M3 3FX

# Cynnwys

Rhagair ... 4
Gwybodaeth gyd-destunol ... 5
Crynodeb a materion allweddol ... 7
Argymhellion ... 10
Methodoleg yr Arolygiad ... 11
1. Cynorthwyo dedfrydu ac aseinio achosion ... 13
2. Gwaith Cynnar yn y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol ... 19
3. Gwaith Cynnar yn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ... 26
4. Torri ac uwchgyfeirio achosion a reolwyd yn wreiddiol gan y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol ... 33
5. Barn troseddwyr ... 40
Cydnabyddiaeth ... 44
Geirfa ... 46

# Rhagair

Hwn yw'n trydydd adroddiad mewn cyfres sy'n edrych ar weithredu cynnar y rhaglen *Gweddnewid Adsefydlu.*

Mae'n canfyddiadau'n cyfateb yn fras i'r hyn oeddent yn ein hadroddiad diwethaf a gyhoeddwyd ym mis Mai 2015, a chymaint yw'r raddfa o newidiadau fel nad yw hyn yn ddim syndod. Caiff ein pryderon eu cofnodi'n glir a'u hadlewyrchu yn ein hargymhellion.

O fewn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol rydym wedi canfod gweithredu anghyson o'r offeryn Risg o Aildroseddu Difrifol sy'n arwain at gamgymeriadau mewn dyrannu. Mae ansawdd amrywiol asesiadau risg o niwed yn bryder parhaus. O fewn Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol rydym wedi canfod safonau anghyson o safbwynt asesiad risg o niwed, asesiad tebygolrwydd o aildroseddu a chofnodi prosesau torri ac uwchgyfeirio.

Ar yr ochr gadarnhaol: Mae'r defnydd o Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd yn dda, ac mae prosesau cynnydd mewn risg rhwng Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol wedi gwella.

Mae staff mewn Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn teimlo o dan bwysau llwythi gwaith ond nid yw'r troseddwyr y siaradasom â hwy wedi sylwi ar fawr o newid ac maent yn gyffredinol hapus gyda'r gwasanaeth y maent wedi'i dderbyn.

Byddwn yn parhau i fonitro gweithredu *Gweddnewid Adsefydlu* tan fis Mawrth 2016. Wrth i amser fynd heibio disgwyliwn weld tystiolaeth fod ein hargymhellion wedi cael eu symud ymlaen gan y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol.

Ym mis Ebrill 2016 byddwn yn cyflwyno'r rhaglen arolygu newydd, Ansawdd ac Effaith. Trwy gyfuno asesu ansawdd gwaith â gwerthuso effaith ar droseddwyr byddwn yn darparu gwell tystiolaeth y gellir ei ddefnyddio i ddal sefydliadau cyflawni yn gyfrifol am eu perfformiad, a bydd Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yn fwy abl i dynnu sylw at 'alluogwyr' neu 'rwystrau' penodol i'r nod o leihau cyfraddau aildroseddu ac amddiffyn y cyhoedd rhag niwed.



**Paul Wilson CBE**
**Prif Arolygydd Prawf Ei Mawrhydi**

**Hydref 2015**

# Gwybodaeth Gyd-destunol

Daeth y gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol i fodolaeth ar 01 Mehefin 2014, fel rhan o raglen *Gweddnewid Adsefydlu* y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Hwn oedd y cam cyntaf mewn cyfres o newidiadau a gynlluniwyd er mwyn agor y farchnad gwasanaethau prawf i ddarparwyr newydd, lleihau cyfraddau aildroseddu a galluogi'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol i ganolbwyntio ar reoli troseddwyr risg uchel o niwed, y rheini sy'n gymwys o dan Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd a throseddwyr o wledydd tramor sy'n ddarostyngedig i alltudiaeth. Cafodd Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol eu trosglwyddo o berchnogaeth gyhoeddus i berchnogaeth breifat ar 01 Chwefror 2015. Mae'r tabl isod yn dangos prif gyfrifoldebau'r ddwy asiantaeth a'r cysylltiadau rhyngddynt.

| LLYSOEDD, ADRODDIADAU A DYRANNU | CYSYLLTIADAU | CYFLAWNI |
|---|---|---|
| **Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol** | **Cwmni Adsefydlu Cymunedol a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol** | **Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol** |
| Paratoi adroddiadau ar gyfer y llys<br><br>Penderfynu ar ddyrannu achosion | Esbonio a hyrwyddo dewisiadau dedfrydu<br><br>Cychwyn gorchmynion yn brydlon<br><br>Cyfnewid gwybodaeth<br><br>Sicrhau gorfodi di-oed<br><br>Sicrhau bod uwchgyfeirio risg yn hyrwyddo rheolaeth effeithiol o risg | Rheoli achosion sy'n gymwys ar gyfer Trefniant Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd, tramorwyr sy'n ddarostyngedig i alltudiaeth, achosion sy'n ymwneud â budd y cyhoedd a phawb arall sy'n cael eu hasesu fel rhai sy'n peri risg uchel o niwed difrifol. Mae hefyd yn cyflwyno rhaglenni triniaeth i droseddwyr rhyw. |
| | | **Cwmni Adsefydlu Cymunedol** |
| | | Rheoli achosion sy'n peri risg isel a risg canolig o niwed difrifol. Mae'n cyflawni ymyraethau ar achosion risg isel, risg canolig a rhai achosion risg uchel. |

Caiff pob gwaith llys ei gyflawni gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Dros y blynyddoedd diwethaf gwnaed ymdrechion i gyflymu'r system gyfiawnder ac i greu adroddiadau'n gyflymach i'r llys. Cyn y trefniadau newydd, byddai Ymddiriedolaethau Prawf yn cael eu mesur ar y gyfran o adroddiadau roeddent yn gallu eu cwblhau o fewn pum diwrnod gwaith neu lai. Gallai'r adroddiadau byrrach hyn fod yn rhai ysgrifenedig neu lafar, ond nid oeddent fel arfer yn seiliedig ar ddadansoddiad llawn System Asesu Troseddwyr o'r risg o niwed difrifol. Mewn Ymddiriedolaethau Prawf, roedd disgwyl i'r rhain gael eu cwblhau yn ystod ychydig wythnosau cyntaf gorchymyn, ond yn dilyn *Gweddnewid Adsefydlu* mae bellach yn ddisgwyliad, lle nodir bod hyn yn angenrheidiol, y byddant yn cael eu cwblhau gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol o fewn dau ddiwrnod gwaith o'r dedfrydu.

Nid yw Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn ymwneud â pharatoi adroddiadau ar gyfer y llys, ac mae llawer o'u hachosion newydd yn cael eu haseinio i reolwyr troseddwyr nad oes ganddynt unrhyw adnabyddiaeth flaenorol o'r troseddwr. Mae cyfathrebu da rhwng y Cwmni Adsefydlu Cymunedol a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn hanfodol er mwyn sicrhau dyrannu achosion yn rhwydd, trosglwyddo gwybodaeth yn llawn, a hefyd i sicrhau rheolaeth briodol ar dorri ac uwchgyfeirio risg.

Gellir gweld yr arolygiad hwn fel parhad o waith Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi i ddeall ac adrodd ar *Gweddnewid Adsefydlu* fel maes sy'n datblygu. Gellir gweld ein hadroddiad diwethaf a'i argymhellion trwy ddefnyddio'r ddolen ganlynol: www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/inspections/transformingrehabilitation2/#.VdbrHaPsqQA.

# Crynodeb a Materion Allweddol

## Cynorthwyo dedfryd ac aseinio achosion

Roedd y cyfathrebu rhwng y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn gwella. Ymddangosai fod gwell cysylltiad o ran y llif gwybodaeth yn ymwneud â gwaith cyn dedfrydu. Roedd llawer o'r Unedau Cyflawni Lleol a arolygwyd gennym wedi sefydlu systemau effeithiol i wirio a oedd achosion yn hysbys i Gwmni Adsefydlu Cymunedol cyn y ddedfryd. Ychydig o drafod oedd, fodd bynnag, rhwng y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yngylch cynigion priodol ar gyfer adroddiadau. Yn ogystal, roedd yn dal i fod gormod o achosion heb sgrinio digonol am Risg o Niwed Difrifol, a lle bo'n angenrheidiol, ddadansoddiad llawn o'r risg o niwed difrifol, ar waith cyn dyrannu.

Roedd sgôr Risg o Aildroseddu Difrifol wedi cael ei gyfrifo ym mron pob achos. Ar sail yr wybodaeth ar y system reoli achosion, roedd yr achos gyda'r sefydliad cywir. Dangosodd ymchwiliad pellach o sgoriau Risg o Aildroseddu Difrifol, fodd bynnag, fod nifer ohonynt yn anghywir, wrth eu cymharu â chyfrifo ein harolygydd, a bod ychydig o achosion yn cael eu dyrannu'n anghywir. Roedd rhai wedi camddehongli'r canllawiau a naill ai wedi anwybyddu gwybodaeth berthnasol neu wedi'i gosod yn rhan anghywir yr offeryn. Arweiniodd hyn at i rai achosion gael eu dyrannu i'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol pan ddylent fod wedi bod gyda'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Nid oedd unrhyw brosesau sicrhau ansawdd ar waith i wella'r gwaith o gwblhau'r offeryn Risg o Aildroseddu Difrifol.

Roedd y System Dyrannu Achosion wedi cael ei chwblhau mewn llai na dau draean o'r achosion. Lle gwnaed hyn, fe'i cwblhawyd mewn pryd a gwelsom hefyd welliant yn ansawdd yr wybodaeth a gynhwysai, gyda llai o adrannau wedi eu nodi 'ddim yn gwybod'. Roedd y raddfa amser ar gyfer cwblhau'r System Dyrannu Achosion, fodd bynnag, yn aml yn rhy fyr i asiantaethau allanol megis gwasanaethau plant neu unedau camdriniaeth domestig yr heddlu ddychwelyd gwybodaeth.

Yn sgil y gofynion i weld troseddwyr yn gyflym, roedd symudiad tuag at ymsefydlu mewn grŵp, yn enwedig o fewn y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol. Roedd hyn yn amhoblogaidd gyda nifer o reolwyr troseddwyr a deimlai fod ymsefydlu unigol yn arwain at well cydweithrediad. Ni chanfuom unrhyw wybodaeth, fodd bynnag, i awgrymu bod ymsefydlu unigol yn fwy effeithiol nag ymsefydlu mewn grŵp.

## Gwaith Cynnar yn y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol

Cafodd mwyafrif yr achosion eu haseinio i reolwr troseddwr penodol o fewn un diwrnod gwaith i'r dedfrydu. Llai na hanner yr achosion a arolygwyd gennym, fodd bynnag, a oedd wedi cael eu hapwyntiadau cyntaf gyda'u rheolwyr troseddwyr o fewn pum niwrnod gwaith i'r dedfrydu. Yn aml, nid oedd gwybodaeth lawn ar achosion newydd ar gael pan wnaed y dyrannu, neu'n union wedyn. Mewn llawer o achosion roedd yr wybodaeth hon yn dilyn ar ôl i'r achos fynd at Gwmni Adsefydlu Cymunedol.

Roedd asesiad tebygolrwydd o aildroseddu'r System Asesu Troseddwyr yn ddigonol mewn mymryn dros hanner yr achosion. Nid oedd cynlluniau dedfrydau'n cael eu cwblhau mewn da bryd bob amser ac nid oeddent bob amser yn rhoi sylw i'r ffactorau a oedd yn gysylltiedig â throseddu, neu faterion amrywiaeth ehangach a rhwystrau rhag cydweithredu.

Roedd llawer o'r troseddwyr a oruchwylwyd gan Gwmni Adsefydlu Cymunedol wedi cyflawni troseddau treisgar, neu wedi ymwneud â chamdriniaeth ddomestig. Roedd pryderon ynghylch amddiffyn plant mewn nifer o achosion. Dim ond dau draean o sgriniadau Risg o Niwed Difrifol a hanner y dadansoddiadau llawn o risg o niwed oedd yn ddigonol. Roedd cynllun rheoli risg effeithiol ar waith mewn llai na hanner yr holl achosion perthnasol. Gall methiant i asesu'n gywir y risg o niwed ac wedyn gweithredu cynllun i'w leihau arwain at ganolbwyntio ar waith anaddas ac at gynnydd yn y niwed y gallai troseddwr ei beri.

Yn gyffredinol, roedd apwyntiadau'n cael eu cynnig yn unol â gofynion y ddedfryd ac roedd staff wedi gwneud ymdrechion i symbylu troseddwyr i gydymffurfio. Aed i'r afael â diffyg cydymffurfio yn gyflym gan staff Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a oedd yn cyhoeddi rhybuddion yn briodol ac yn ceisio ailennyn cydweithrediad troseddwyr a hyrwyddo cydymffurfio â'r ddedfryd.

## Gwaith Cynnar yn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

Cafodd bron bob un o'r achosion a samplwyd eu dyrannu o fewn un diwrnod gwaith a'u gweld gan eu rheolwr troseddwr o fewn dau ddiwrnod gwaith. Cafodd materion amrywiaeth a rhwystrau rhag cydweithredu eu hadnabod yn y mwyafrif o achosion; fodd bynnag nid oedd cynlluniau i ymdrin â'r materion hyn wedi cael eu datblygu mewn dau draean o'r achosion perthnasol. Roedd gan y mwyafrif o achosion asesiad digonol o'r tebygolrwydd o aildroseddu ond roedd prydlondeb yn broblem. Roedd cynlluniau dedfrydau'n ddigonol mewn dau draean o'r achosion a lle cawsant eu cwblhau, roeddent yn gyffredinol yn cynnwys amcanion priodol.

Roedd gan y mwyafrif o achosion sgrinio Risg o Niwed Difrifol ar waith ond roedd rhai o'r staff wedi cymryd yn rhy hir i'w cwblhau. Roedd asesiadau llawn ar gyfer risg o niwed yn ddigonol mewn mymryn dros hanner yr achosion a arolygwyd gennym. Nid oedd asesiadau bob amser yn defnyddio pob ffynhonnell o wybodaeth a oedd ar gael ac nid oedd y dadansoddiad o risg i blant yn ddigon da mewn gormod o achosion. Roedd asesiadau o ansawdd gwael yn arwain bron yn anochel at gynlluniau rheoli risg o ansawdd gwael, a llai na dau draean o'r rhain oedd yn ddigonol. Lle'r oedd pryderon ynghylch diogelwch plant, canfuom fod angen gwella'r defnydd o weithdrefnau Amddiffyn Plant gan staff y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Nid oedd goruchwyliaeth rheolwyr wedi bod yn ddigon effeithiol i fynd i'r afael â'r diffygion hyn.

Roedd amlder a math ogcysylltiad yn dda yn y rhan fwyaf o achosion, ac yn y mwyafrif roedd ymyraethau wedi cael eu cyflawni yn ôl yr hyn a gynlluniwyd. Lle'r oedd troseddwyr yn methu â chydymffurfio, gwelsom ymateb cadarn a defnydd addas o'r broses orfodi. Dylid bod wedi gwneud mwy o ymweliadau cartref, fodd bynnag, lle'r oedd troseddwyr yn peri risg o niwed difrifol i'r cyhoedd ac mewn achosion Amddiffyn Plant.

## Gorfodi

Yn gyffredinol, roedd y broses orfodi yn amrywiol, gyda rhai Unedau Cyflawni Lleol yn dal i brofi cyfraddau gwrthod uchel am becynnau torri. Roedd llawer wedi cael eu dychwelyd oherwydd gwallau sillafu a gwallau gramadegol neu i gwestiynu cynigion. Roedd yr enghreifftiau gorau i'w gweld mewn Unedau Cyflawni Lleol a oedd wedi sefydlu prosesau da ar gyfer sicrhau ansawdd a pherthynas gadarnhaol rhwng staff Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a staff erlyn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, gan wneud gorfodi chwim yn fwy tebygol.

Mae gorfodi llym yn fwy tebygol o sicrhau cydweithrediad gyda gwaith a gynlluniwyd a chydymffurfio yn y dyfodol. I dorri achos, rhaid i'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol gynhyrchu pecyn torri a throsglwyddo'r achos i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ar gyfer erlyn. Mae nifer o raddfeydd amser sy'n rhaid cadw atynt a dylid cofnodi'r rhain yn glir ar nDelius. Nid oedd y cofnodi'n glir mewn hanner yr achosion torri y gwnaethom eu harolygu ac roedd hyn yn ei gwneud yn anodd penderfynu os cadwyd at y graddfeydd amser gofynnol.

Cafodd y nifer bach o achosion trwydded yn y sampl eu gorfodi'n glir gan y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol ac roedd yr holl adalwadau a welsom yn rhai priodol.

## Uwchgyfeirio risg

Mae'r broses o uwchgyfeirio achosion i'r Gwasanaeth Prawf Cendlaethol os digwydd cynnydd mewn risg troseddwr o niwed difrifol yn un sy'n gwella. Roedd hyder staff wedi tyfu ac roedd mwy o fuddsoddiad yng ngwerth y broses yn y mwyafrif o Unedau Cyflawni Lleol yr ymwelasom â hwy.

Roedd gan bron i bob un o'r achosion a welsom reswm clir y gellid ei gyfiawnhau dros gychwyn y weithdrefn uwchgyfeirio.

Mewn rhai Unedau Cyflawni Lleol cafodd y broses ei disgrifio gan staff a rheolwyr fel un sy'n gweithio'n dda ac roedd yn amlwg ei bod yn gweithio'n dda; fodd bynnag, nid oedd hyn yn wir ym mhob Uned Gyflawni Lleol gyda rhai staff yn feirniadol iawn o'u prosesau lleol a oedd, yn ein barn ni, yn gweithredu'n llawer mwy effeithiol mewn rhai lleoedd nag mewn lleoedd eraill.

Roedd cryn ddadlau ymysg rheolwyr Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a rheolwyr y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ynghylch achosion lle'r oedd troseddwr wedi cael ei arestio neu ei gyhuddo ond wedyn heb gael ei gollfarnu o drosedd ddifrifol. Mewn rhai achosion, roedd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol wedi cael eu gadael yn dal achos a uwchgyfeiriwyd nad oedd wedi cael ei ddosbarthu fel un a oedd yn peri risg uchel o niwed difrifol. Byddai gwell cyfathrebu rhwng Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn helpu symleiddio'r broses. Yn ogystal, mae'n dal i fod lle i wella wrth gofnodi'r wybodaeth ofynnol ar y system rheoli achosion.

# Argymhellion

### Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

- Dylai'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol sicrhau bod pawb o'r staff yn gyfarwydd â matrics blaenoriaethu Risg o Aildroseddu Difrifol/ System Asesu Achosion. (1.7)
- Dylai'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol sefydlu system sicrhau ansawdd er mwyn gwella cywirdeb wrth gwblhau'r offeryn Risg o Aildroseddu Difrifol. (1.14)
- Dylai'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol sicrhau bod sgrinio Risg o Niwed Difrifol, a lle nodwyd bod hyn yn angenrheidiol, asesiad risg o niwed llawn yn cael ei gwblhau ym mhob achos cyn ei ddyrannu i Gwmni Adsefydlu Cymunedol. (1.6, 1.20)
- Dylai'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol wella ansawdd ei asesiadau llawn ar gyfer risg o niwed, yn enwedig gan gyfeirio at ddadansoddi a rheoli risg o niwed i blant. (3.9, 3.24)
- Dylai'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol sicrhau bod cynllun rheoli risg cadarn ac amserol ar waith ar gyfer pob achos risg uchel o niwed difrifol. (3.11)

### Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol

- Dylai Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol ganolbwyntio ar wella ansawdd asesiadau llawn ar gyfer risg o niwed. (2.11)
- Dylai Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol ganolbwyntio ar wella ansawdd asesiadau tebygolrwydd o aildroseddu. (2.8)
- Dylai staff Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol sicrhau bod asesiad o unrhyw faterion amrywiaeth neu rwystrau rhag cydweithedu yn cael ei gwblhau a bod cynllun yn cael ei roi ar waith i fynd i'r afael â phroblemau perthnasol. (2.6)
- Dylai Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol sicrhau bod ganddynt strwythurau goruchwylio rheolaeth effeithiol ar waith lle bo pryderon ynghylch y lefel o risg o niwed. (2.22)
- Dylai Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol wella ansawdd eu cofnodi gwybodaeth sy'n ymwneud â gweithdrefn uwchgyfeirio adolygu risg a'r broses sy'n ymwneud â thorri. (4.6, 4.16)

# Methodoleg yr Arolygiad

Yn yr arolygiad hwn rydym wedi canolbwyntio ar waith a wnaed ar bwynt y dedfrydu a'r dyrannu gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, gwaith a wnaeth gan y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol i reoli troseddwyr, a'r cysylltiadau rhwng y ddau sefydliad o ran gorfodi ac adolygu risg. Rydym wedi cynnwys gwaith gyda'r rheini a ryddhawyd ar drwydded, ac wedi eithrio'r rheini a oedd yn destun gofyniad unigol o waith di-dâl, canolfan bresenoldeb, allgáu neu gyrffyw.

Digwyddodd y gwaith maes ar gyfer yr arolygiad hwn rhwng mis Mawrth 2015 a mis Mai 2015. Edrychasom ar werth pedwar mis o waith a oedd wedi cael ei wneud rhwng mis Tachwedd 2014 a mis Mawrth 2015, gyda throseddwyr a oedd wedi derbyn dedfrydau cymunedol neu wedi cael eu rhyddhau ar drwyddedau. Mae'r tri neu bedwar mis cyntaf yn aml yn gyfwerth â thua chwarter hyd ymyrraeth. O ganlyniad, mae'n anodd inni asesu canlyniadau hirdymor yr ymyraethau, gan nad oeddent wedi cael digon o amser i gael effaith llawn.

Edrychasom ar 120 o achosion a oedd wedi cael eu dyrannu i'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol. O'r rhain, roedd 60 yn orchmynion cymunedol, 35 yn orchmynion goruchwylio dedfrydau gohiriedig a 25 o drwyddedau. Roedd y sampl yn 76% gwrywaidd, 83% yn Brydeinwyr gwyn a 15% o gymunedau du a lleiafrifoedd ethnig. Roedd 2% o grwpiau ethnig eraill.

Roedd 45 o achosion y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Roedd 10 yn orchmynion cymunedol, 15 yn orchmynion goruchwylio dedfrydau gohiriedig a 27 o drwyddedau. Roedd y sampl yn 89% gwrywaidd, ychydig dros bedwar o bob pump yn Brydeinwyr gwyn a'r gweddill o grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig eraill.

Fe wnaethom hefyd arolygu 51 o achosion ychwanegol a oedd wedi cael eu hystyried o dan y broses adolygu risg rhwng 01 Awst 2014 a 16 Ionawr 2015. O'r rhain, roedd 27 yn orchmynion cymunedol, 15 yn orchmynion dedfrydau gohiriedig a 9 o drwyddedau. Roedd y sampl yn 90% gwrywaidd, 84% yn Brydeinwyr gwyn a 14% o grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig. Roedd 2% o grwpiau ethnig eraill.

Mewn tair Uned Gyflawni Lleol fe wnaethom hefyd archwilio arferion ynglŷn â'r offeryn Risg o Aildroseddu Difrifol yn fanylach. Arolygasom 59 o asesiadau Risg o Aildroseddu Difrifol, 28 o brif sampl yr arolygiad a 31 yn allanol iddo.

Mae'r samplau achosion o'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn wahanol mewn llawer o ffyrdd. Mae'r prif wahaniaethau'n ymwneud â lefelau risg o niwed difrifol a statws Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA). Roedd sampl y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol hefyd yn cynnwys cyfran lawer uwch o achosion trwydded a chyfran is o achosion benywaidd.

Ymwelasom â chwe chlwstwr o Unedau Cyflawni Lleol y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol cysylltiedig. Y rhain oedd: Swydd Nottingham (Cwmni Adsefydlu Cymunedol Swydd Derby, Swydd Gaerlŷr, Swydd Nottingham a Rutland), Norfolk a Suffolk (Cwmni Adsefydlu Cymunedol Norfolk a Suffolk), De Tyne (Cwmni Adsefydlu Cymunedol Northumbria), Hammersmith, Fulham, Kensington, Chelsea a Westminster (Cwmni Adsefydlu Cymunedol Llundain), Dorset (Cwmni Adsefydlu Cymunedol Dorset, Dyfnaint a Chernyw), Gogledd Cymru (Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru). Ymwelodd tîm o naill ai saith neu wyth arolygydd â phob ardal am dri diwrnod.

Cyfwelasom â 38 o reolwyr troseddwyr y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a 100 o reolwyr troseddwyr y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a oedd yn gyfrifol am yr achosion a archwiliasom. Cynaliasom hefyd chwe grŵp ffocws ar gyfer rheolwyr canolig yn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaehtol a chwech i reolwyr canolig yn y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol perthnasol. Cyfwelasom 36 o droseddwyr gan ddefnyddio offeryn cyfweld lled-strwythuredig.

Rydym wedi ymweld ag Unedau Cyflawni Lleol a oedd yn wahanol yn ddaearyddol i'r rheini a arolygasom yn ein hadroddiad blaenorol. Nid yw felly'n bosibl cymharu'r canfyddiadau'n uniongyrchol nac i ddweud yn ddiamheuol fod unrhyw wahaniaethau'n gynrychioliadol o berfformiad yng Nghymru a Lloegr. Rydym, fodd bynnag, wedi gwneud sylwadau lle'r ydym wedi gweld arwyddion o gynnydd a wnaed ar yr hyn a welsom fel heriau yn ein harolygiadau *Gweddnewid Adsefydlu* blaenorol.

# 1. Cynorthwyo dedfrydu ac aseinio achosion

### Cyflwyniad

Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn gyfrifol am gynorthwyo ynadon a barnwyr wrth benderfynu ar y ddedfryd fwyaf addas i droseddwyr unigol. Yr unig ffordd y gall y swyddogaeth hon gael ei chyflawni yw trwy berthynas waith agos gyda'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol. Mae angen i staff y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ddeall yr hyn y gall y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol ei gynnig fel y gellir gwneud cynigion addas ar gyfer dedfrydu. Os goruchwylir y troseddwr ar hyn o bryd gan Gwmni Adsefydlu Cymunedol, rhaid casglu gwybodaeth gan y Cwmni Adsefydlu Cymunedol a'i chyflwyno i'r llys. Lle dyrennir troseddwr i Gwmni Adsefydlu Cymunedol, mae angen i wybodaeth am y troseddwr a'r ddedfryd gael ei throsglwyddo'n gyflym gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol i'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol.

Caiff cynigion ar gyfer dedfrydu eu cyflwyno mewn adroddiadau cyn-dedfrydu, a all fod yn adroddiad llafar, adroddiad ysgrifenedig fformat byr neu adroddiad llawn. Gellir cyflwyno adroddiadau ar ddydd y dedfrydu, ar ôl ysbaid fer neu ysbaid hirach, fel arfer hyd at dair wythnos ar ôl y dedfrydu.

Mae'r adroddiad cyn-dedfrydu yn cynnwys dadansoddiad o'r drosedd, y rhesymau dros yr ymddygiad troseddol, ac yn nodi ymyraethau i leihau aildroseddu. Dylai adroddiadau gynnwys dyfarniad o'r risg o niwed difrifol a berir gan y troseddwr. Lle nodir, dylid cyflawni dadansoddiad llawn o'r risg o niwed gan ddefnyddio'r System Asesu Troseddwyr (OASys). Lle bo angen dadansoddiad llawn o'r risg o niwed, ac na pharatowyd hyn cyn y dedfrydu, dylid bob amser ei gwblhau cyn i'r achos gael ei ddyrannu i'r sefydliad priodol.

Er mwyn dyrannu troseddwr i'r sefydliad cywir, mae'n ofynnol i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol gwblhau dwy dasg arall. Yn gyntaf, cyfrifo'r Risg o Aildroseddu Difrifol, sy'n defnyddio data actwaraidd i adnabod y tebygolrwydd (fel canran) o droseddwyr sydd â nodweddion penodol fynd ymlaen i gyflawni trosedd ddifrifol niweidiol yn y ddwy flynedd nesaf. Yn ail, y System Ddyrannu Achosion, sy'n cynnwys offeryn sgrinio Risg o Niwed Difrifol i gynorthwyo wrth benderfynu pa sefydliad y dylid dyrannu'r troseddwr iddo.

## Canfyddiadau

### Gwaith cyn-dedfrydu

1.1 Er bod gan holl Unedau Cyflawni Lleol y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol brosesau ar waith i wirio os oedd troseddwyr yn adnabyddus i'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol, ymddengys nad oedd fawr o ymgynghori cyn-dedfrydu ynghylch cynigion sgrinio addas. Roedd staff Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn cydnabod nad oedd y gofyniad i gyflwyno nifer cynyddol o adroddiadau ar ddydd y dedfrydu yn gadael fawr o amser i ysgrifenwyr adroddiadau'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol gyd-drafod â staff y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol.

1.2 Fe wnaeth rhai o staff y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol fynegi pryderon eu bod yn dod yn llai gwybodus ynghylch y gwasanaethau a'r mathau o oruchwyliaeth a ddarparwyd trwy'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol ac y byddai hyn yn arwain at anawsterau wrth wneud cynigion addas. Canfuom, fodd bynnag, fod cynnig clir am ddedfryd gymunedol addas ym mron pob un o'r achosion a arolygwyd.

1.3 Gwelsom rywfaint o dystiolaeth o systemau sefydledig a gafodd eu cynllunio ar gyfer darparu gwybodaeth gyfoes ar achosion cyfredol Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol, er enghraifft, trwy ddarparu ymateb i adroddiadau goruchwylio. Lle nad oedd hyn yn digwydd, roedd rhai dedfrydau'n cael eu gwneud heb gyfraniad gan reolwyr achosion Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol, a olygai na allai llysoedd arfarnu'n llawn sefyllfa neu gynnydd y

troseddwr. Y farn gyffredinol gan reolwyr Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol oedd bod cyfathrebu rhwng sefydliadau i gynorthwyo dedfrydu yn gwella'n raddol, ond bod angen iddynt fod yn well. Er enghraifft, roedd ceisiadau hwyr am wybodaeth ynghylch achosion Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn achosi straen ar y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol, a oedd weithiau'n methu ag ymateb mewn pryd.

1.4 Roedd cyfarfodydd rhyngwyneb, a drefnwyd i fynd i'r afael ag unrhyw faterion yn ymwneud a gwaith cyn-dedfrydu wedi cael eu sefydlu yn rhai o'r Unedau Cyflawni Lleol a arolygwyd, ond nid ym mhob un. Roedd rhai cyfarfodydd uwch-reolwyr ar waith, ond roedd cyfarfodydd rhyngwyneb rheolwyr canolig naill ai heb gael eu sefydlu, neu ddim ond yn eu babandod.

1.5 Cynhyrchwyd adroddiadau cyn-dedfrydu mewn 141 allan o 151 o achosion a arweiniodd at ddedfryd gymunedol. Adroddiadau fformat byr wedi eu teipio oedd y mwyafrif (61), roedd 44 o adroddiadau llawn a 36 o adroddiadau llafar.

1.6 Fe wnaethom asesu bod adroddiadau'n seiliedig ar wybodaeth ddigonol ar gyfer dibenion dedfrydu yn y mwyafrif o achosion ond pryder inni oedd darganfod mai 62% yn unig a gefnogwyd gan sgrinio Risg o Niwed Difrifol. Nidoedd asesiad llawn ar gyfer risg o niwed wedi ei gwblhau fel oedd yn ofynnol cyn dyrrannu'r achos i Gwmni Adsefydlu Cymunedol mewn chwe achos. Yn gyffredinol, ein hasesiad ni oedd bod bron i dri chwarter yr adroddiadau o ansawdd digonol. Er bod hyn yn faes y mae angen parhau i ganolbwyntio arno, fe wnaethom nodi gwelliant ers ein harolygiad diwethaf.

## Yr asesiad Risg o Aildroseddu Difrifol

1.7 Rhaid i'r sgôr Risg o Aildroseddu Difrifol gael ei chyfrifo ym mhob achos, hyd yn oed lle nad oes unrhyw wybodaeth i arwyddo bod y troseddwr wedi dangos unrhyw ymddygiad sy'n arwydd achosi niwed difrifol. Fe wnaeth matrics blaenoriaethu Risg o Aildroseddu Difrifol a gyhoeddwyd gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn Ebrill 2015 ddileu'r rheidrwydd i gwblhau'r offeryn Risg o Aildroseddu Difrifol cyn dyrannu mewn achosion sy'n cael eu dyrannu'n awtomatig i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Er bod hyn yn rhywbeth i'w groesawu, nid ymddengys fod hyn yn cael ei ddeall yn helaeth gan staff ar adeg yr arolygiad hwn.

1.8 Mae'r ddogfen Risg o Aildroseddu Difrifol yn gymhleth ac mae angen cyfeirio at amserlenni eraill gan roi sylw i rai mathau cyffredin o droseddau. Teimlai rhai o'r staff y siaradasom â hwy nad oeddent yn hyderus eu bod yn deall yn union yr hyn a ddisgwylid ganddynt. Yn ein hadroddiad blaenorol awgrymasom y gallai cysylltu'r canllawiau'n electronig â'r ffurflen symleiddio'r sefyllfa. Awgymwn fod hyn yn dal i fod yn wir.

1.9 Fe wnaethom neilltuo arolygydd i edrych yn fanwl ar gwblhau'r offeryn Risg o Aildroseddu Difrifol mewn tair o'r chwe ardal arolygyu. Roedd hyn yn cynnwys ail-sgorio'r asesiad Risg o Aildroseddu Difrifol. Roedd y sampl yn cynnwys 28 o achosion o brif sampl yr arolygiad a 31 yn allanol iddo. Mewn rhai achosion siaradasom â'r rheolwr troseddwr a oedd wedi cwblhau'r offeryn Risg o Aildroseddu Difrifol yn wreiddiol.

1.10 Roedd 40 o achosion gyda sgôr a oedd yn is na 5%. Mewn 31 o'r achosion hyn roedd yr amrywiad rhwng y sgôr a gynhyrchwyd gan yr arolygydd a'r sgôr a gynhyrchwyd gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol fel arfer yn llai nag un pwynt canran, gyda rhai yn sgorio union yr un faint. Ni fyddai'r sgôr Risg o Aildroseddu Difrifol wedi dylanwadu ar benderfyniad y dyrannu mewn unrhyw un o'r achosion hyn. Yn y naw achos arall, roedd amrywiad o fwy na dau bwynt canran. Mewn tri o'r achosion hyn byddai'r gwahaniaeth wedi codi'r achos uwchben y trothwy o 6.9% ar gyfer dyrannu i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, ac felly roedd yr achosion wedi cael eu dyrannu'n anghywir i Gwmni Adsefydlu Cymunedol. Ymddengys fod mwy o amrywiad yn y band hwn na'r hyn a ganfuom yn ein hadroddiad cynharach.

**Enghraifft o arfer**

Mewn un achos, gwelsom ddyn 19 oed wedi ei ddedfrydu i 16 mis yn y ddalfa am fyrgleriaeth. Cofnodwyd sgôr Risg o Aildroseddu Difrifol o 6.0% a dyrannwyd yr achos i Gwmni Adsefydlu Cymunedol. Canlyniad ein hail sgorio ni oedd 10.36%. Roedd yr asesiad anghywir ar gyfer Risg o Aildroseddu Difrifol yn golygu bod yr achos wedi cael ei ddyrannu i'r sefydliad anghywir. Roedd y sgôr Risg o Aildroseddu Difrifol yn anghywir yn y meysydd canlynol:

- adran 3.1 – dyddiad y gosb gyntaf – roedd y cyfrifiad sylfaenol yn nodi bod y sgôr Risg o Aildroseddu Difrifol yn seiliedig ar gollfarnau am bedair blynedd, a heb roi sylw i'r rhybuddiadau, ceryddau a'r rhybuddion a oedd yn ymestyn yn ôl bedair blynedd arall

- adran 3.2 – nifer o gosbau blaenorol – ni roddwyd sylw i dri rhybyddiad, ceryddau a rhybuddion

- adran 3.3 – nifer o gollfarnau am troseddau treisgar presennol/blaenorol – roedd y tri rhybuddiad, cerydd a rhybudd yn ymwneud â throseddau treisgar ac nis cynhwyswyd.

1.11 Yn y 19 o achosion a sgoriodd 5% neu'n uwch, roedd 14 o fewn dau bwynt canran i'r sgôr a gynhyrchwyd gan yr arolygydd. Dylai un o'r achosion hyn fod wedi cael ei ddyrannu i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn hytrach na Chwmni Adsefydlu Cymunedol yn sgil sgôr y Risg o Aildroseddu Difrifol yn mynd heibio i'r trothwy o 6.9%. Dangosodd pum achos amrywiad o fwy na dau bwynt canran. O'r pum achos hyn, daethom i'r farn fod y sgôr yn rhy uchel mewn tri achos ac yn rhy isel yn y ddau arall. Gwelsom un achos a oedd wedi cael ei ddyrannu i Gwmni Adsefydlu Cymunedol oherwydd bod y sgôr Risg o Aildroseddu Difrifol a gofnodwyd islaw'r trothwy o 6.9%, ond roedd ein cyfrifiad ni o'r sgôr Risg o Aildroseddu Difrifol yn eu codi uwchlaw'r trothwy. Ymddengys, fodd bynnag, fod llai o amrywiad yn y band hwn nag yn ein harolygiad cynharach.

1.12 Roedd yr amrywiad rhwng sgoriau Risg o Aildroseddu Difrifol yr arolygydd a'r rhai a gynhyrchwyd gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn y mwyafrif o achosion o ganlyniad i gamddealltwriaeth gan staff ynghylch pa wybodaeth y dylid ei chynnwys, a lle y dylid ei chynnwys yn yr asesiad Risg o Aildroseddu Difrifol. Mae'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS) yn cynghori bod hyfforddiant Risg o Aildroseddu Difrifol wedi cael ei gynnig i bawb o'r staff perthnasol. Yn ystod ein harolygiad, dywedwyd wrthym nad oedd pawb wedi derbyn yr hyfforddiant a daethom i'r farn fod staff yn aml heb fod yn deall y canllawiau na sut i gwblhau'r offeryn. Roedd gwallau cyffredin yn cynnwys:

- hepgor rhybuddiadau, ceryddau a rhybuddion
- cynnwys achosion o dorri
- methiant i ddilyn y canllawiau ynghylch beth sy'n cyfrif fel trosedd dreisgar
- cofnodi troseddau meddw ac afreolus, difrod troseddol a'r drefn gyhoeddus yn anghywir fel rhai di-drais
- roedd troseddau megis cymryd cerbydau mewn modd wedi'i waethygu yn cael eu cyfrif yn anghywir fel rhai treisgar gan rai o'r staff.

1.13 Canfuom fod staff yn cael anhawster gwahaniaethu rhwng troseddau, collfarnau a chosbau. Po fwyaf cymhleth oedd hanes y troseddu y mwyaf yr amrywiad yn y sgôr Risg o Aildroseddu Difrifol rhwng y gwreiddiol a'r ail-sgôr gan yr arolygydd. Lle'r oedd hanes hirach a mwy cymhleth o droseddu, roedd angen mwy o ofal i sicrhau bod y data cywir yn cael ei

fewnbynnu i'r offeryn Risg o Aildroseddu Difrifol. Dywedwyd wrthym y gallai cael hyd i'r holl wybodaeth berthnasol am y troseddwyr olygu treulio llawer iawn o amser. Roedd rhai o staff y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn cael y dasg hon yn anodd ei chwblhau'n gywir yn sgil gofynion ar eu hamser i gyflawni dyletswyddau eraill y llys ac yn parhau i amau gwerth cwblhau asesiad Risg o Aildroseddu Difrifol ar gyfer pob achos.

1.14 Ni chanfuom dtystiolaeth o unrhyw broses sicrhau ansawdd i sicrhau cywirdeb y ffordd y cafodd yr offeryn Risg o Aildroseddu Difrifol ei gwblhau. Roedd rhai rheolwyr yn ymwybodol o'r problemau gyda chysondeb y sgoriau a gynhyrchwyd. Byddai sgoriau weithiau'n cael eu hailgyfrifo pe sylwid eu bod o gwmpas y trothwy o 6.9%, ond nid oedd unrhyw ddull systematig.

1.15 Daethom i'r farn fod y sgôr Risg o Aildroseddu Difrifol yn cael ei defnyddio'n bennaf fel offeryn dyrannu. Ei diben yw cysylltu sgôr actwaraidd â dyfarniadau clinigol yr ymarferydd yn y ddogfennaeth ddyrannu achosion, ac felly'n sicrhau bod asesiad risg trylwyr a dibynadwy wedi cael ei gwblhau cyn dyrannu. Ychydig o dystiolaeth y gallem ei gweld o'r sgôr Risg o Aildroseddu Difrifol yn llywio arferion yn ymwneud ag asesu risg. Yn debyg i'r hyn a ganfuom yn ein hadroddiad cynharach, fe'i cwblhawyd tua diwedd y broses asesu, a chyfyng felly oedd o ran ei ddefnyddioldeb. Ar ôl dyrannu, canfuom mai cyfyng iawn oedd y defnydd o'r sgôr Risg o Aildroseddu Difrifol mewn adolygiadau o'r risg o niwed difrifol neu o fewn y broses adolygu uwchgyfeirio risg.

## Y System Dyrannu Achosion

1.16 Yn dilyn cwlbhau'r asesiad Risg o Aildroseddu Difrifol mae'n ofynnol i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol gwblhau System Dyrannu Achosion ym mhob achos. Yn yr arolygiad hwn canfuom fod y System Dyrannu Achosion wedi cael ei chwblhau mewn tri achos o bob pump (60%) o'r rheini a dderbyniodd ddedfryd gymunedol. Mae hwn yn ostyngiad bach o'i gymharu â'n harolygiad blaenorol a byddem wedi disgwyl gweld y defnydd o'r System Dyrannu Achosion wedi gwreiddio'n ddyfnach dros amser. Roedd y lefelau cwlbhau ar draws y chwe ardal yn amrywio. Pan wnaed hyn, roedd y mwyafrif llethol o achosion System Dyrannu Achosion wedi eu cwblhau o fewn un diwrnod gwaith o'r dedfrydu.

1.17 Mae'r System Dyrannu Achosion yn casglu gwybodaeth drwy asesiad sgrinio Risg o Niwed Difrifol. Mae hyn yn cynnwys amrywiol adrannau ac mae staff yn nodi o fewn y rhain a oes ganddynt wybodaeth ddigonol i benderfynu a oes angen cwblhau dadansoddiad llawn o risg o niwed. Mae'n bwysig fod y System Dyrannu Achosion yn cael ei chwblhau mor llawn ag sy'n bosibl, er mwyn galluogi'r asesiad mwyaf trylwyr i gael ei wneud i benderfynu a oes angen cwblhau dadansoddiad llawn o risg o niwed. Canfuom fod, yn y mwyafrif llethol o achosion, y System Dyrannu Achosion wedi cael ei chwblhau i safon dda, a oedd yn welliant ar ein canfyddiadau blaenorol. Fel yn ein hadroddiad cynharach, lle'r oedd yn rhaid cael gafael ar wybodaeth yn allanol gan sefydliadau eraill megis gwasanaethau plant neu unedau camdriniaeth domestig yr heddlu, roeddem yn aml yn gweld bylchau mewn asesiadau. Roedd y raddfa amser ar gyfer cwblhau'r System Dyrannu Achosion yn aml yn rhy fyr i wybodaeth berthnasol gael ei dychwelyd mewn pryd. Roedd llawer o achosion yn cael eu dedfrydu ar y diwrnod trwy adroddiadau llafar neu'n cael gohiriadau byr i adroddiadau gael eu cyflwyno'n gyflym.

1.18 Mewn mymryn o dan hanner yr achosion, roedd y System Dyrannu Achosion neu wybodaeth arall yn dangos angen am asesiad llawn ar gyfer risg o niwed cyn dyrannu i naill ai'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol neu Gwmni Adsefydlu Cymunedol. Cafodd hyn ei gwblhau mewn tri chwarter o achosion perthnasol y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ac ychydig dros hanner o achosion perthnasol Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol. Lle gwnaed asesiadau llawn ar gyfer risg o niwed, cafodd ychydig dros chwarter o'r rhai ar gyfer y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Chwmnïau Adsefydlu Cymunedol eu cwlbhau fwy na dau ddiwrnod gwaith ar

ôl y dedfrydu. Er inni ganfod mwy o eglurder yn ymwneud â rolau'r naill a'r llall, roedd yn amlwg fod anawsterau'n dal i fod wrth gael yr wybodaeth neu gael yr amser a oedd ei angen i gwblhau asesiad llawn ar gyfer risg o niwed cyn y dyrannu. Mae angen i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol gyflawni ei rôl benodedig i gynhyrchu'r asesiadau hynny.

## Gwneud y penderfyniad dyrannu

1.19 Yn dilyn y dedfrydu, mae'n ofynnol i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ddyrannu'r achos o fewn dau ddiwrnod gwaith. Canfuom yn y prif sampl fod bron pob achos yn cael ei ddyrannu'n gywir. Roedd hyn yn debyg i'n canfyddiadau blaenorol ac awgryma fod y broses ddyrannu'n gweithredu'n llwyddiannus yn y rhan fwyaf o achosion. Pan wnaethom archwilio'r broses ddyrannu mewn mwy o ddyfnder trwy ail-sgorio'r aseses Risg o Aildroseddu Difrifol fodd bynnag, canfuom fod nifer fach o achosion o fewn y sampl Risg o Aildroseddu Difrifol nad oedd wedi cael eu dyrannu'n gywir.

1.20 Roedd y mwyafrif o ddosbarthiadau risg o niwed difrifol yn gywir; fodd bynnag, clywsom gan staff Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol fod y rhain yn aml yn achosion a ddyrannwyd heb i asesiad llawn ar gyfer risg o niwed gael ei gwblhau. Cefnogwyd hyn gan ein canfyddiadau mewn amryw o achosion a arolygwyd gennym. Yn absenoldeb cynhyrchu adroddiad cyn-dedfrydu llawn ar ôl gohiriad hirach, roeddem yn llawer llai tebygol o ganfod bod yr asesiad risg o niwed llawn wedi cael ei gwblhau lle'r oedd yn ofynnol gan staff y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Cydnabuwyd hyn gan staff y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a esboniodd nad oedd fawr ddim amser yn y llys nac ar ôl dedfrydu i gwblhau asesiad llawn. Os nad oedd hyn cael ei wneud yn union ar ôl dedfrydu yna roedd y broses ddyrannu achosion yn symud yr achos yn gyflym ymlaen at Gwmni Adsefydlu Cymunedol heb i'r asesiad risg o niwed gael ei gwblhau. Mae'r canfyddiadau hyn yn atgynhyrchu'r hyn a ganfuwyd yn ein harolygiad cynharach, ac yn parhau i adlewyrchu'r pwysau ar staff i gyflawni'r hyn sy'n ofynnol gydag adnoddau a ddyrannwyd o fewn y graddfeydd amser sy'n bod.

1.21 Roedd gwahanol drefniadau ar waith ar gyfer cyhoeddi canlyniadau dedfrydu. Roedd y mwyafrif o Unedau Cyflawni Lleol yn defnyddio e-bost i gyfathrebu; roedd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol naill ai'n cysylltu â blwch canolog e-bost Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol neu staff gweinyddol penodol. Yn wyneb y targed i weld y troseddwr o fewn pum niwrnod gwaith o'r dyrannu gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, canfuom symudiad rhannol yn y ddau sefydliad tuag at ymsefydlu mewn grŵp (ond yn fwy felly yn y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol), o gymharu â'n hadroddiad cynharach. Roedd y mwyafrif o'r staff a gyfwelwyd gennym yn erbyn y symudiad tuag at ymsefydlu mewn grŵp ac yn dymuno cadw at apwyntiadau un-i-un. Teimlent ei bod yn bwysig gweld troseddwyr a chynnal eu hymsefydliad er mwyn cychwyn adeiladu perthynas gadarnhaol cyn gynted â phosibl. Ni welsom unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod ymsefydlu unigol wedi bod yn fwy effeithiol nag ymsefydlu mewn grŵp.

1.22 Cawsom wybod gan rai staff Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol nad oedd gwybodaeth lawn ar achosion newydd bob amser ar gael ar adeg y dyrannu. Weithiau nid oedd y cofnodion ond yn cynnwys manylion sylfaenol a'r ddogfennaeth atodol megis yr adroddiad cyn-dedfrydu, y System Ddyrannu Achosion a'r sgrinio Risg o Niwed Difrifol. Pan oedd asesiad llawn ar gyfer risg o niwed yn cael ei gwblhau, roedd hynny'n dilyn yn ddiweddarach. Gwelsom dystiolaeth o hyn mewn rhai o'r achosion a arolygwyd gennym, ac er yn gwella, mae'n debyg i ganfyddiadau'n harolygiad blaenorol.

1.23 Derbyniasom amryw o sylwadau gan staff yn amau'r angen i gwblhau'r holl ddogfennaeth sy'n gysylltiedig â'r broses ddyrannu ym mhob achos. Teimlai rhai o staff y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol nad oedd fawr o ddiben mewn defnyddio amser gwerthfawr yn cwblhau sgôr Risg o Aildroseddu Difrifol neu System Dyrannu Achosion pan oedd yr achos yn mynd i gael ei ddyrannu'n awtomatig i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol am ryw reswm arall, er

enghraifft cymhwysedd MAPPA. Yn ogystal, roedd y System Dyrannu Achosion yn cael ei gweld fel petai'n dyblygu'r sgrinio Risg o Niwed Difrifol a oedd yn ofynnol gan OASys. Teimlai rhai o staff Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol y gallent gael set fwy cynhwysfawr o ddogfennaeth gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol petai gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol fwy o amser i'w gwblhau. Gallai dileu'r angen i gwblhau'r asesiad Risg o Aildroseddu Difrifol a'r System Ddyrannu Achosion ar gyfer achosion awtomatig y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol hwyluso hyn. Mae cyfle i'r broses gael ei hadolygu a'r potensial i rai adnoddau gael eu rhyddhau a'u defnyddio mewn ffordd wahanol. Byddai hyn yn cyflawni asesiadau mwy cynhwysfawr a chywir yn yr achosion hynny sy'n cael eu dyrannu i Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol.

## Argymhellion

- Dylai'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol sicrhau bod pawb o'r staff yn gyfarwydd â matrics blaenoriaethu'r Risg o Aildroseddu Difrifol / System Asesu Achosion. (1.7)

- Dylai'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol sicrhau system sicrhau ansawdd er mwyn gwella cywirdeb y gwaith o gwblhau'r offeryn Risg o Aildroseddu Difrifol. (1.14)

- Mae angen i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol sicrhau bod sgrinio risg o niwed difrifol, a lle nodwyd bod hynny'n angenrheidiol, asesiad llawn o risg o niwed, yn cael ei gwblhau ym mhob achos cyn ei ddyrannu i Gwmni Adsefydlu Cymunedol. (1.6, 1.20)

# 2. Gwaith Cynnar yn y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol

### Cyflwyniad


Unwaith y mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol wedi dyrannu achos i Gwmni Adsefydlu Cymunedol, eu cyfrifoldeb hwy yw cynnwys y troseddwr mewn cynllun i rwystro neu leihau aildroseddu a rheoli unrhyw risg o niwed y gall ei beri. Mae'r bennod hon yn edrych ar waith y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol i reoli'r amcanion hyn.

Mae'r arolygiad hwn yn cynnwys yr amserlen yn dilyn cyflwyno darparwyr newydd i gyflawni gwasanaethau adsefydlu. Newydd ddechrau ysgwyddo'r cyfrifoldebau hyn y maent a dim ond ers 01 Chwefror 2015 y mae'r contractau wedi bod ar waith gyda'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol. Nid oedd mecanweithiau cyflawni'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol wedi cael eu hadolygu ryw lawer o gymharu â'r rheini a oedd ar waith cyn mis Mehefin 2014. Ar adeg ein hadolygiad, roedd y perchnogion newydd yn y broses o werthuso'r sefydliadau yr oeddent wedi cymryd cyfrifoldeb amdanynt ac o gynllunio strwythurau cyflawni perthnasol.

## Canfyddiadau

#### Aseinio, ymsefydlu ac apwyntiadau cyntaf

2.1 Canfuom fod gan bron i hanner yr achosion a ddyrannwyd i Gwmni Adsefydlu Cymunedol reolwr troseddwr wedi ei bennu o fewn 24 awr i'r dedfrydu neu ryddhau ar drwydded. Roedd ein harolygiad cynharach wedi canfod hyn mewn dros ddau draean o achosion. O fewn wythnos roedd y mwyafrif o achosion wedi cael eu haseinio i reolwr troseddwr. Nid awdur yr adroddiad cyn-dedfrydu yw'r rheolwr troseddwr posibl mwyach, a gall yr angen i drosglwyddo gwybodaeth rhwng y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol arafu pethau. Gall oedi wrth weld y rheolwr troseddwr arwain at droseddwyr yn methu â chydymffurfio â'u gorchmynion ac yn y pen draw at gyfnod aflwyddiannus o oruchwyliaeth. Gweler ffigur 1.





2.2 Mewn ychydig dros hanner yr achosion yn y sampl, roedd yr apwyntiad cyntaf hwnnw gyda'r rheolwr troseddwr, cwymp o'r hyn a ganfuwyd gennym o'r blaen. Cawsom yr argraff mai dyma oedd y ffordd roeddynt yn dymuno ymwneud â throseddwyr ac fe'i hystyrid gan reolwyr troseddwyr fel y dull mwyaf effeithiol o adeiladu perthynas gadarnhaol. Yn sgil

cyfyngiadau amser, staff a thargedau perfformiad, fodd bynnag, nid oedd bob amser yn bosibl cynnig hyn.

2.3 Defnyddiwyd ymsefydlu mewn grŵp mewn dros draean o achosion. Yn yr apwyntiad hwn roedd y mwyafrif llethol o achosion yn cael eu hapwyntiad nesaf gyda'u rheolwr troseddwr. Lle nad oedd hynny'n bosibl, ymdriniwyd ag adrodd trwy drefniadau dyletswydd. Canfuom fwy o ddefnydd o ymsefydlu mewn grŵp yn cael ei adrodd yn yr arolygiad hwn mewn ymateb i realiti a'r gofynion am adnoddau a thargedau perfformiad.

**Ffigur 2**
**Nifer o ddyddiau rhwng y ddedfryd neu ryddhau a'r apwyntiad cyntaf gyda'r rheolwr troseddwr - achosion Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol**




2.4 Ychydig dros chwarter y troseddwyr a gafodd eu gweld gan eu rheolwr troseddwr o fewn dau ddiwrnod gwaith o'r dedfrydu neu ryddhau; dirywiad ers ein harolygiad cynharach. Cafodd chwarter arall eu gweld o fewn pum niwrnod ac ychydig o dan hanner mewn mwy na phum niwrnod. Gweler ffigur 2.

2.5 Fel yr argymhellwyd yn ein hadroddiad blaenorol, credwn y dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y rheolwr troseddwr a'r troseddwr yn cyfarfod cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl y dedfrydu neu'r rhyddhau i lunio cynllun dedfryd a rheoli unrhyw faterion risg o niwed. Mae methiant i wneud hynny'n cynyddu'r potensial am beidio â chydymffurfio.

2.6 Mae'n bwysig fod pob agwedd o amgylchiadau a phrofiad y troseddwr yn cael eu hasesu er mwyn ei gwneud yn bosibl rhoi cynllun trylwyr a chadarn ar waith i gyflawni'r ddedfryd. Roedd asesiad digonol o ffactorau amrywiaeth a rhwystrau posibl i gydweithrediad mewn ychydig o dan ddau draean o'r achosion, gwelliant ar ein canfyddiadau blaenorol. Mewn ychydig dros hanner yr achosion hyn gwelsom gynllun ar waith i ymdrin ag anghenion amrywiol a goresgyn rhwystrau rhag cydweithredu. Roedd hyn yn welliant bach ar ein hadroddiad cynharach ond mae'n amlwg fod angen gwelliant sylweddol er mwyn sicrhau bod staff yn mynd i'r afael yn effeithiol â'r rhwystrau a'r materion hyn i roi pob cyfle i oruchwyliaeth lwyddo.

2.7 Fe wnaeth rhai rheolwyr y sylw nad oedd ganddynt ddigon o staff a bod y staff o dan bwysau ac yn ei chael yn anodd cyflawni'r targedau perfformiad a oedd yn ofynnol. Dywedwyd wrthym gan eraill fod y sefyllfa'n gymharol addawol, gyda rheolwyr a staff yn teimlo'n gadarnhaol ynghylch cyflawni perfformiad da. I grynhoi, roedd barn gymysg ynghylch effaith y newidiadau a gyflwynwyd gan ddiwygiadau *Gweddnewid Adsefydlu.*

## Rheoli'r troseddwr

2.8 Ar gychwyn y ddedfryd neu ryddhau ar drwydded cafodd ychydig dros hanner (63 allan o 118) yr achosion asesiad digonol o'r tebygolrwydd o aildroseddu; mewn bron i draean, roedd yr asesiad yn annigonol, cwymp mewn perfformiad ers ein hadroddiad blaenorol. Mewn 19 o achosion nid oedd unrhyw asesiad.

2.9 Yn dilyn asesiad, canfuom fod cynllunio cychwynnol dedfryd wedi ei gwblhau mewn pryd mewn mymryn dros hanner yr achosion. Roedd amcanion priodol yn cael eu gosod mewn nifer tebyg o achosion. Roedd asesiad digonol o ffactorau cymunedol a chefnogaeth gymdeithasol wedi bod mewn dau draean o'r achosion hynny, ac roedd yr un gyfran wedi cael eu cyfeirio at ddarparwyr perthnasol.

2.10 Gwelsom broffil tebyg o ran risg o niwed difrifol i'r hyn a welsom yn ein hadroddiad blaenorol, ond gyda gostyngiad yn y nifer o achosion nad oedd unrhyw lefel risg i niwed difrifol wedi ei gofnodi ar eu cyfer. Nid oedd dim o'r achosion a reolwyd gan y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol wedi cael eu hasesu fel rhai a oedd yn peri risg uchel o niwed difrifol. Cafodd y gyfran uchaf (59%), eu hasesu fel rhai'n peri risg ganolig o niwed difrifol, cafodd 38% eu hasesu fel rhai risg isel o niwed difrifol, a chafodd lefel dim risg ei gofnodi yn y gweddill.


2.11 Lle'r oedd hynny'n ofynnol, gwelsom sgrinio digonol ar gyfer Risg o Niwed Difrifol mewn bron i ddau draean o achosion. Roedd dadansoddiad llawn digonol o risg o niwed difrifol mewn ychydig o dan hanner yr achosion perthnasol. Mewn ychydig dros draean o achosion, roedd yr asesiad yn annigonol ac roedd bron i un achos perthnasol o bob pump heb unrhyw asesiad. Roedd asesiadau'n defnyddio pob ffynhonnell o wybodaeth a oedd ar gael mewn llai na dau draean o achosion. Roedd dadansoddiad digonol o risg o niwed difrifol i blant mewn 70% o achosion perthnasol. Mewn gormod o achosion nid oedd lefel y risg o niwed yn cael ei hadnabod nac yn cael sylw boddhaol. Mae'r enghraifft canlynol o arfer yn amlygu pwysigrwydd asesu effeithiol; fe wnaeth yr arolygydd y sylw:

> *"Nid oedd yr asesiad yn ddigonol, roedd y rheolwr troseddwr yn methu ag adnabod ymddygiad blaenorol perthnasol, er enghraifft, gweithgaredd rhywiol gyda phlentyn o dan 13 oed a ddaeth yn feichiog o ganlyniad. Roedd y System Dyrannu Achosion a'r Risg o Aildroseddu Difrifol hefyd yn ffeithiol anghywir – wrth golli'r drosedd rywiol, ni wnaeth y rheolwr troseddwr ystyried archwilio ymddygiad blaenorol a chael hyd i'r digwyddiadau blaenorol hyd nes i'r drosedd honedig newydd o weithgaredd rhywiol gyda merch 14 oed ddod yn hysbys. Nid oedd unrhyw dystiolaeth o wiriadau cychwynnol gyda'r heddlu neu wasanaethau plant."*

2.12 Unwaith mae materion risg o niwed wedi cael eu hadnabod mae'n hanfodol fod cynllun effeithiol yn cael ei ddyfeisio i reoli a lleihau'r risgiau hynny. Roedd y cynlluniau rheoli risg yn ddigonol mewn ychydig o dan hanner yr achosion perthnasol. Mewn ychydig dros draean o achosion roeddent yn annigonol ac nid oedd unrhyw gynllun gan y gweddill. Er inni weld rhywfaint o welliant yn ansawdd y cynlluniau rheoli risg ar ein harolygiad blaenorol, mae angen i Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol flaenoriaethu gwella ansawdd cynlluniau rheoli risg er mwyn rheoli a lleihau'n effeithiol y risg o niwed difrifol a berir gan y troseddwyr y maent yn eu rheoli.

2.13 Barnasom fod blaenoriaeth ddigonol wedi ei rhoi i ddiogelwch dioddefwyr presennol a dioddefwyr posibl gan staff Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol mewn 60% o achosion perthnasol. Mewn gormod o achosion, nid oedd rheolwyr troseddwyr wedi adnabod nac wedi cynllunio'n effeithiol i reoli'r materion yn ymwneud â dioddefwyr presennol a dioddefwyr posibl.

2.14 Gellir gweld crynodeb o'n canfyddiadau allweddol ynghylch rheoli'r troseddwyr i'w gweld yn ffigur 3.




## Cyflawni'r ddedfryd

2.15 Roedd yr apwyntiadau a gynigiwyd i droseddwyr i gyflawni gofynion y ddedfryd yn briodol yn y mwyafrif mawr o achosion a arolygwyd. Roedd amlder y cysylltiad a drefnwyd gyda'r troseddwr yn unol â gofynion cynllun y ddedfryd mewn dros dri chwarter o achosion, ac roedd y ffordd y cyflwynwyd ymyraethau'n ymdrin â'r risg canfyddedig o niwed a berid i eraill gan y troseddwr yn yr un gyfran o achosion.


2.16 Calondid inni oedd gweld bod y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn cyflawni lefelau cymharol dda o gyswllt, a bod materion amrywiaeth a rhwystrau rhag cydweithredu'n cael sylw mewn cyfran dda o achosion. Yn benodol, roedd materion amrywiaeth yn cael eu cydnabod wrth gyflwyno gwasanaethau mewn ychydig o dan dri chwarter o achosion perthnasol. Roedd gwaith digonol yn cael ei gyfeirio at oresgyn rhwystrau rhag cydweithredu mewn cyfran debyg o achosion. Cafodd gwaith symbylu i helpu ac annog y troseddwr i gydweithredu'n llawn â'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod y ddedfryd ei gwblhau i safon ddigonol mewn bron i dri chwarter o achosion perthnasol.

2.17 Roedd ymyraethau'n cael eu cofnodi'n glir yn y mwyafrif o achosion, gan ein galluogi ni i adnabod pa ymyraethau a oedd yn cael eu defnyddio i fynd i'r afael ag ymddygiad troseddol. Roedd ymyraethau wedi cael eu cyflwyno'n brydlon neu roedd cynllun ar waith i'w cyflwyno mewn bron i dri chwarter o achosion. Er bod rhai ymyraethau'n hwyrach nag y dylent fod, roedd nifer bach o achosion heb unrhyw ymyrraeth benodol wedi eu cynllunio ar eu cyfer.

2.18 Roeddem yn falch o weld bod y rheolwr troseddwr, ym mron pob achos a arolygwyd, yn monitro presenoldeb ar draws pob agwedd o'r ddedfryd. Yn y mwyafrif mawr o achosion roedd rheolwyr troseddwyr yn mynd ati'n gyflym i ymchwilio i ddiffyg cydymffurfio. Mewn ychydig o dan hanner yr achosion roedd ymddygiad annerbyniol ac yn y mwyafrif o'r achosion hynny roedd rheolwyr troseddwyr wedi cyflwyno rhybudd ffurfiol amserol. Cymerwyd camau gorfodi yn erbyn saith achos trwydded, a chafodd pump o'r rhain eu hadalw. Cafodd 15 o achosion cymunedol a oedd yn destun gweithdrefnau gorfodi eu

gorfodi, gan arwain at naw achos lle profwyd toriad. Yn y mwyafrif o achosion perthnasol, roedd rheolwyr troseddwyr wedi gwneud ymdrechion digonol i ailennyn cydweithrediad troseddwyr ar ôl gorfodi, a'u hannog hwy i gydymffurfio â'r gorchymyn, a oedd yn welliant ar y canfyddiadau yn ein hadroddiad blaenorol.

2.19 Gellir gweld crynodeb o'n canfyddiadau allweddol ynghylch cyflawni'r ddedfryd yn ffigur 4.




## Adolygu'r gwaith gyda'r troseddwr


2.20 Yn sgil cwmpas pedwar mis yr arolygiad, gwelsom 43 o achosion lle barnasom fod angen i adolygu'r asesiad o'r tebygolrwydd o aildroseddu. Mewn ychydig o dan hanner y rhain fe wnaethom asesu bod yr adolygiad o ansawdd digonol. Roedd ychydig o dan chwarter yn annigonol, ac roedd 13 o achosion heb unrhyw adolygiad, pryd y dylai un wedi bod. Lle gwelsom adolygiadau, yn y mwyafrif o achosion roedd rheolwyr troseddwyr wedi ymateb yn brydlon i newid sylweddol, gan roi sylw i newidiadau i ffactorau perthnasol ac wedi gosod dyddiadau priodol ar gyfer adolygu yn y dyfodol. Gellid gwella adolygiadau trwy sicrhau ceisio pob gwybodaeth berthnasol gan weithwyr eraill a oedd yn ymwneud ag achos y troseddwr.

2.21 Roedd adolygiadau o'r asesiad risg o niwed difrifol yn annigonol mewn mwy na hanner yr achosion perthnasol. Yn rhy aml, roedd rheolwyr troseddwyr naill ai wedi methu â cheisio, neu methu â defnyddio, gwybodaeth berthnasol gan ffynonellau neu asiantaethau eraill. Gwelsom 34 o achosion a oedd, yn ein barn ni, yn gofyn am adolygiad o'r cynllun rheoli risg. Dim ond 15 a oedd wedi cael eu hadolygu i safon ddigonol. Roedd naw adolygiad yn annigonol, a'r prif ddiffygion oedd diffyg gwybodaeth berthnasol, methiant i ragweld newidiadau posibl mewn risg o niwed a graddfeydd amser anaddas ar gyfer adolygiadau yn y dyfodol. Mewn 10 achos nid oedd unrhyw adolygiad wedi bod.

2.22 Byddem yn disgwyl gweld ymwneud gan reolwyr os oedd amgylchiadau mewn achos yn arwyddo bod pryderon ynghylch risg uchel o niwed difrifol neu faterion yn ymwneud ag amddiffyn plant. Mae goruchwyliaeth o'r fath yn sicrhau y gellir gweithredu lefel o brofiad a gwybodaeth i sicrhau adnabod problemau, bod y camau i fynd i'r afael â hwy yn rhai addas a bod risg o niwed yn cael ei leihau o ganlyniad. Roeddem yn siomedig o ganfod mai mewn ychydig dros draean o achosion o'r fath yr oedd ymwneud effeithiol gan reolwyr yn yr arolygiad hwn.

2.23 Roeddem yn gallu asesu os oedd collfarn pellach neu benderfyniad arall wedi bod am drosedd a gyflawnwyd ers cychwyn y gorchymyn neu drwydded mewn 119 o achosion. Mewn 15 o achosion roedd collfarn arall wedi bod; mewn 4 achos roedd penderfyniad arall. Roedd yn galondid gweld nad oedd unrhyw gollfarn na gwarediad pellach wedi bod yn y mwyafrif mawr o achosion.

2.24 Gellir gweld crynodeb o'n canfyddiadau allweddol ar gyfer adolygu gwaith gyda'r troseddwr yn ffigur 5.




## Argymhellion

- Dylai Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol ganolbwyntio ar wella ansawdd asesiadau o'r tebygolrwydd o aildroseddu. (2.8)

- Dylai Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol ganolbwyntio ar wella ansawdd asesiadau llawn ar gyfer risg o niwed. (2.11)

    - Dylai staff Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol sicrhau bod asesiad o unrhyw faterion amrywiaeth neu rwystrau rhag cydweithredu'n cael ei gwblhau a chynllun yn cael ei roi ar waith i ymdrin â'r materion. (2.6)

    - Mae angen i Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol sicrhau bod ganddynt strwythurau goruchwylio effeithiol gan reolwyr ar waith ar gyfer achsion lle mae pryderon ynghylch y lefel o risg o niwed difrifol. (2.22)

# 3. Gwaith Cynnar yn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

## Cyflwyniad


Ers 01 Mehefin 2014 mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol wedi cael y cyfrifoldeb o reoli rhai mathau o droseddwyr; caiff y rheini sydd wedi cyflawni trosedd rywiol neu dreisgar sy'n gymwys ar gyfer eu rheoli o dan MAPPA, sydd wedi cael eu hasesu fel rhai sy'n peri risg uchel o niwed difrifol, gyda sgôr o dros 6.89% ar yr offeryn Risg o Aildroseddu Difrifol, rhai tramorwyr ac achosion budd y cyhoedd eu rheoli gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol.

Yn ystod yr arolygiad hwn fe wnaethom asesu 45 o achosion a reolwyd gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Roedd y rhain yn cynnwys achosion gorchmynion cymunedol ac achosion trwydded. Cynaliasom chwe grŵp ffocws gyda rheolwyr y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a chyfwelasom â rhai troseddwyr a oruchwyliwyd gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol.

## Canfyddiadau

### Aseinio, ymsefydlu ac apwyntiadau cyntaf


3.1 Roeddem yn falch o weld bod y mwyafrif o achosion wedi cael eu haseinio i reolwr troseddwr penodol naill ai cyn y dedfrydu neu o fewn un diwrnod gwaith o ddedfrydu neu ryddhau ar drwydded. Mewn tri achos roedd yr aseiniad fwy nag un diwrnod gwaith ar ôl y dedfrydu neu ryddhau ac mewn un achos roedd wedi cymryd mwy na phum niwrnod. Mewn tri achos nid oedd y cofnod yn glir. Gweler ffigur 6.




3.2 Roedd tri chwarter o'r troseddwyr wedi cael dyddiau eu hapwyntiad cyntaf naill ai ar ddyddiad y dedfrydu neu ynghynt. Mewn bron i dri chwarter o'r achosion roedd yr apwyntiad cyntaf gyda'r rheolwr troseddwr a aseiniwyd gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Canfuom mai mewn un achos yn unig y defnyddiwyd ymsefydlu mewn grŵp. Mewn tri achos nid oedd ymsefydlu pellach yn ofynnol gan fod y troseddwyr hynny yn derbyn cyswllt tebyg ar y pryd. O fewn Unedau Cyflawni Lleol y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yr ymwelasom â hwy roedd y prif bwyslais ar ymsefydlu unigol gyda rheolwyr troseddwyr, yn hytrach na symud tuag at ymsefydlu mewn grwp.

3.3 Gall cyd-drafod buan a chadarnhaol gyda throseddwyr ar ôl eu dedfrydu fod o gymorth mawr ar gyfer goruchwylio llwyddiannus. Cafodd troseddwyr eu gweld gan y rheolwyr troseddwyr a aseiniwyd ar eu cyfer o fewn un neu ddau ddiwrnod gwaith mewn bron i ddau draean o achosion perthnasol. Cafodd naw eu gweld mewn tri i bum niwrnod gwaith, a'r saith achos arall mewn dros pum niwrnod. Mae tystiolaeth fod troseddwyr wedi cael cynnig ymsefydlu amserol ac unigol mewn dros dri chwarter o'r achosion a arolygwyd gennym. Roedd prydlondeb y cyd-drafod â throseddwyr wedi gwella ers ein harolygiad diwethaf. Gweler ffigur 7.

**Ffigur 7**
**Nifer o ddyddiau rhwng y ddedfryd neu ryddhau a'r apwyntiad cyntaf gyda'r rheolwr troseddwr - achosion y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol**




3.4 Archwiliasom a oedd materion amrywiaeth a rhwystrau rhag cydweithredu wedi cael eu hasesu ac a oedd camau clir wedi cael eu nodi ar gyfer mynd i'r afael â hwy. Canfuom fod asesiad digonol mewn tipyn mwy na thri chwarter o'r achosion perthnasol. Nid oedd cofnodi clir o'r camau i oresgyn y materion hyn, fodd bynnag, mor amlwg, gyda llai na dau draean o gofnodion achosion yn cynnwys cynlluniau ar sut y byddai rhwystrau'n cael eu goresgyn.

### Rheoli'r troseddwr

3.5 Gwelsom asesiad digonol o'r tebygolrwydd o aildroseddu gan y troseddwr ar gychwyn y ddedfryd neu ryddhau ar ddedfryd mewn mwy na dau draean o achosion (70%); roedd hyn yn debyg i'n canfyddiadau yn ein hadroddiad blaenorol. Mewn tri achos, nid oedd yr asesiad wedi cael ei gwblhau. Mewn bron i chwarter o'r achosion roedd yr asesiad yn annigonol. Y prif ddiffyg, fodd bynnag, oedd prydlondeb; roedd asesiadau'n cael eu gwneud yn rhy araf ar ôl dedfrydu neu ryddhau ar drwydded. O ystyried bod y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn rheoli achosion risg uchel o niwed difrifol mae hwn yn faes lle mae angen gwella. Mae asesiadau'n gosod sail ar gyfer cynlluniau, sy'n arwain at weithredu. Gall oedi mewn asesu achosi oedi mewn gweithredu i leihau aildroseddu.

3.6 Barnasom fod cynlluniau dedfrydau o safon ddigonol mewn ychydig dros ddau draean o achosion a aseswyd. Roedd cynlluniau heb gael eu cwblhau mewn dau achos. Lle cwblhawyd hwy, gosodwyd amcanion addas mewn dros dri chwarter o'r achosion. Yn y mwyafrif mawr o'r achosion hyn, roedd staff wedi adnabod camau i hyrwyddo integreiddio cymunedol a gwella rhwydweithiau cymdeithasol ac wedi adeiladu'r rhain i mewn i'r cynllun. Roedd troseddwyr wedi cael eu cyfeirio at ddarparwr gwasanaeth ar sail y cynlluniau hynny mewn dros dri chwarter o achosion perthnasol.

3.7 Mae adeiladu perthynas a'r symbyliad i gydymffurfio â chynllun y ddedfryd yn bwysig wrth fynd i'r afael ag aildroseddu. Po fwyaf y teimla troseddwr fod ganddo fuddsoddiad yn y

gorchymyn, y mwyaf o botensial sydd am ganlyniadau llwyddiannus. Edrychasom a oedd y troseddwr wedi bod yn ymwneud yn weithredol â'r broses o gynllunio'r ddedfryd a chanfuom fod hyn yn ddigonol mewn bron i dri chwarter o'r achosion perthnasol. Ymdriniwyd yn ddigonol ag amrywiaeth wrth gynllunio dedfrydau mewn ychydig llai na thri chwarter yr achosion perthnasol.

3.8 Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn rheoli achosion risg uchel o niwed difrifol, ac mewn ychydig o dan dri chwarter o'r achosion perthnasol, gwelsom sgrinio amser ar gyfer Risg o Niwed Difrifol. Yn ein barn ni roedd y sgrinio hwn yn gywir yn y mwyafrif o achosion. Er hynny, cafodd chwarter o'r achosion risg uchel o niwed difrifol sgriniadau hwyr a oedd, yn ein barn ni, yn faes sydd angen ei wella.

3.9 Cafodd dadansoddiad cychwynnol llawn o'r risg o niwed difrifol ei gwblhau mewn pryd mewn ychydig dros dri chwarter o'r achosion perthnasol, gwelliant ar ein canfyddiadau blaenorol. Lle gwnaed hyn, canfuom fod y dadansoddiad yn ddigonol mewn ychydig dros hanner yr achosion. Ni chwblhawyd unrhyw ddadansoddiad mewn pum achos a ddylai, yn ein barn ni, fod wedi cael un. Canfuwyd diffygion yn y meysydd canlynol:


- mewn 11 achos, ni chynhwyswyd manylion plant yr oedd y troseddwr wedi cael cyswllt â hwy
- mewn 11 achos, roedd dadansoddiad annigonol o'r risg o niwed difrifol i blant
- mewn 11 achos, nid oedd yr asesiadau'n defnyddio pob ffynhonnell o wybodaeth a oedd ar gael
- mewn 9 achos, nid oedd yr asesiadau'n amserol.

3.10 Gwelsom fod yr Unedau Cyflawni Lleol yr ymwelasom â hwy wedi profi prinder staff. Dywedwyd wrthym nad oedd bob amser yn bosibl cwblhau asesiadau mewn pryd a bod staff yn teimlo o dan bwysau oherwydd eu llwyth gwaith. Mae'n destun pryder, fodd bynnag, nad oedd diffygion mewn asesiadau risg o niwed wedi cael eu hadnabod a'u hymdrin gan systemau sicrhau ansawdd a bod cymaint wedi cael eu harwyddo'n lleol fel rhai digonol pan oeddent yn methu â dadansoddi'n ddigonol risg o niwed i blant. Mewn un achos nododd arolygydd:

*"Nid oedd unrhyw dystiolaeth o oruchwyliaeth rheolwyr o'r achos. Ni ddatgelodd y troseddwr lle'r oedd yn byw a bod ganddo hanes o drais domestig. Dywedodd fod plentyn gan ei bartner. Nid oedd unrhyw gamau wedi cael eu cymryd i sicrhau ymchwilio pellach i'r wybodaeth hon."*

3.11 Dylai dadansoddiad cychwynnol da o risg o niwed difrifol arwain at gynllun rheoli risg cadarn a chlir sy'n rheoli neu'n lleihau'r risg o niwed difrifol a berir gan y troseddwr. Canfuom nad oedd ansawdd cynlluniau rheoli risg wedi gwella ers ein harolygiad diwethaf a'i fod yn ddigonol mewn llai na dau draean o achosion. Nid oedd unrhyw gynllun mewn 4 achos, a barnwyd bod 13 yn annigonol ac nad oeddent yn mynd i'r afael â'r materion risg o niwed difrifol yn yr achos.

3.12 Gellir gweld crynodeb o'n canfyddiadau allweddol ynghylch rheoli'r troseddwr yn ffigur 8.




## Cyflawni'r ddedfryd

3.13 Edrychasom i weld a oedd amlder a'r math o apwyntiadau a drefnwyd gyda throseddwyr yn ddigonol i gefnogi cyflawni'r ddedfryd neu drwydded. Canfuom fod yr hyn a gynigiwyd yn addas yn y mwyafrif mawr o achosion. Roedd cyswllt gwirioneddol gyda'r troseddwr yn ddigonol ac yn unol â'r cynllun a gynigiwyd yn y mwyafrif o'r achosion a arolygwyd gennym. Roeddem yn falch o weld y lefel hon o gyswllt addas gyda throseddwyr.

3.14 Rhoddwyd sylw i ffactorau amrywiaeth mewn dros dri chwarter o achosion perthnasol. Roedd gwaith digonol yn cael ei gyfeirio at oresgyn rhwystrau rhag cydweithredu mewn cyfran debyg o'r achosion hynny. Roedd cofnodion clir o'r ymyraethau yn y mwyafrif o achosion.

3.15 Roedd rheolwyr troseddwyr y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn dda iawn am fonitro presenoldeb troseddwyr ar draws pob rhan o'r gorchymyn neu drwydded. Gwelsom oruchwyliaeth rheolwyr o droseddwyr ym mhob un o'r achosion a arolygwyd gennym. Roedd hefyd ymateb amserol ac ymchwilgar i ddiffyg cydymffurfio ym mron pob achos perthnasol. Lle nodwyd ymddygiad annerbyniol gan y rheolwr troseddwr, gwelsom rybuddion ffurfiol clir ac amserol yn cael eu cyflwyno yn y mwyafrif mawr o achosion.

3.16 Rhoddwyd gweithdrefnau gorfodi ar waith mewn deg o achosion trwydded; dychwelwyd un achos i'r ddalfa ar adalwad tymor sefydlog, y naw arall ar adalwadau safonol. Cafodd tri achos cymunedol eu torri yn y llys; profwyd dau, ac roedd un heb gael ei gwblhau ar ddiwedd yr arolygiad. Yn y mwyafrif o achosion, roedd staff wedi gwneud ymgais ddigonol i ailennyn cydweithrediad y troseddwr ac annog ei ymrwymiad i'r gorchymyn neu drwydded. Canfuom fod camau gorfodi'n cael eu cofnodi'n glir o fewn graddfeydd amser priodol ym mron bob achos.

3.17 Roeddem yn falch o ganfod bod staff y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol wedi cynnal lefel uchel o gyswllt gyda throseddwyr a bod tystiolaeth o gydweithredu adeiladol ym mron bob achos perthnasol. Nid oedd rheolwyr troseddwyr, fodd bynnag, bob amser yn gallu parhau i ganolbwyntio ar waith i leihau aildroseddu fel y nodwyd yn y cynllun gwreiddiol. Efallai o ganlyniad i hynny, gwelsom fod ymyraethau penodol yn cael eu cyflawni fel y'u cynlluniwyd mewn ychydig dros ddau draean o achosion a'u cyflawni'n hwyr mewn bron i un o bob pump. Roedd chwe achos heb unrhyw ymyraethau penodol wedi eu cynllunio o gwbl. Gwelsom lefelau uchel o gyswllt nad oedd bob amser yn golygu bod amser effeithiol yn cael ei dreulio ar ymyraethau i leihau aildroseddu.

3.18 Roedd troseddwyr yn derbyn cymorth digonol i wella neu gynnal rhwydweithiau cymdeithasol a ffynonellau o gymorth o fewn y teulu a'r gymuned yn y mwyafrif mawr o achosion. Roedd rheolwyr troseddwyr yn dda am roi cymorth gyda llety ac wrth fynd i'r afael ag aelodaeth o gangiau. Roedd llai o ganolbwyntio, fodd bynnag, mewn meysydd eraill o waith yn enwedig wrth fynd i'r afael ag agweddau rhagfarnllyd ymhlith troseddwyr. Canfuom fod gwaith symbylu addas i helpu annog cydweithrediad yn cael ei gyflawni mewn bron i dri chwarter o achosion perthnasol.

3.19 Roedd defnydd effeithiol o ofynion cyfyngol o fewn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Ym mron pob achos perthnasol gwnaed defnydd addas o ofynion cyfyngol, megis monitro electronig, gorchmynion ffrwyno neu orchmynion ychwanegol, megis Gorchmynion Atal Troseddau Rhywiol. Unwaith roedd y rhain ar waith, roedd y gofynion hyn yn cael eu monitro'n llawn mewn dedfrydau cymunedol a thrwyddedau yn y mwyafrif o achosion. Roedd safleoedd cymeradwy yn cael eu defnyddio'n effeithiol yn y mwyafrif llethol o achosion perthnasol.

3.20 Roeddem o'r farn fod blaenoriaeth addas yn cael ei rhoi i ddiogelwch dioddefwyr presennol a dioddefwyr posibl gan staff y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol mewn 84% o achosion (32 allan o 38). Roedd pryderon y dioddefwyr yn cael ystyriaeth gan y rheolwr troseddwr yn y mwyafrif o'r achosion hynny a gallem adnabod camau penodol a gynlluniwyd i ymdrin â'r pryderon hynny yn y mwyafrif o achosion perthnasol.

3.21 Un maes allweddol o waith i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yw rheoli newidiadau i'r risg o niwed difrifol a berir gan droseddwr a sicrhau bod ymateb cyflym ac addas i'r newidiadau hyn. Roeddem yn falch o ddarganfod bod ymateb addas i newidiadau yn y risg o niwed difrifol ym mhob achos perthnasol. Gallai'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol wella'i arferion ymhellach drwy sicrhau bod y newidiadau hyn yn cael eu cofnodi'n glir. Yn ein barn ni, mewn chwarter o'r achosion ni chafodd newidiadau eu cofnodi'n glir ar y system rheoli achosion.

3.22 Nid oedd y defnydd o ymweliadau cartref o fewn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol i gefnogi asesu a rheoli achosion mor uchel ag y dylai fod yn ein barn ni. Cafodd ymweliad cartref pwrpasol ei wneud, oherwydd y risg uchel o niwed difrifol a oedd yn gysylltiedig â'r achos, mewn ychydig dros hanner yr achosion lle teimlem ei fod yn angenrheidiol. Ni wnaeth hyn wella dros gwrs y gorchymyn neu drwydded. Ychydig o dan hanner yr achosion lle'r oedd angen ail ymweliad cartref, yn sgil risg o niwed difrifol, neu faterion Amddiffyn Plant, a oedd wedi derbyn un.


3.23 Roedd 32 o achosion MAPPA o fewn y sampl, gyda 27 o'r rhain yn cael eu rheoli ar lefel 1 a 5 achos ar lefel 2. Roeddem yn cytuno bod pob achos yn cael eu rheoli ar y lefel gywir. Canfuom fod gweithdrefnau MAPPA yn gweithredu'n effeithiol ym mhob achos perthnasol. Roedd camau gweithredu'n cael eu cofnodi'n glir a'u cyflawni, yn cael eu hadolygu'n briodol

a staff a oedd yn gweithio gyda'r troseddwr yn cyfrannu'n effeithiol at MAPPA. Mewn llai na hanner yr achosion perthnasol, fodd bynnag, y defnyddiwyd VISOR yn effeithiol lle'r oedd ei angen.

3.24 Mae'r defnydd effeithiol o weithdrefnau amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn Plant yn rhan ganolog o reoli a lleihau'r risg o niwed i grŵp sy'n arbennig o agored i niwed o fewn cymdeithas. Roedd gweithdrefnau amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn Plant yn cael eu defnyddio'n effeithiol mewn llai na dau draean o achosion perthnasol (9 allan o 15). Mewn achosion lle nad oeddent, roedd penderfyniadau a wnaed o fewn y gweithdrefnau amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn Plant:

- heb gael eu cofnodi'n glir mewn 5 achos
- heb gael eu cyfleu, eu holrhain na'u gweithredu mewn 6 allan o 14 achos perthnasol
- heb gael eu hadolygu'n briodol mewn 6 allan o 14 achos perthnasol
- heb bawb o'r staff a oedd yn gweithio gyda'r troseddwr wedi cyfrannu'n effeithiol at y gweithdrefnau mewn 7 achos.

3.25 Gellir gweld crynodeb o'n canfyddiadau allweddol ynghylch cyflawni'r ddedfryd yn ffigur 9.




## Adolygu'r gwaith gyda'r troseddwr


3.26 Yn ein barn ni, roedd adolygiadau o'r asesiadau o'r tebygolrwydd o aildroseddu yn ofynnol mewn 26 o achosion. Roedd y mwyafrif mawr wedi cael eu cwblhau i safon ddigonol. Mewn tri achos roedd adolygiad heb gael ei gwblhau lle dylai fod. Gwnaethom ganfyddiadau tebyg o safbwynt adolygiadau o gynlluniau dedfrydau.

3.27 Roedd yr asesiad risg o niwed difrifol yn ddigonol mewn bron i dri chwarter o'r achosion. Mewn tri achos roedd yr adolygiad yn annigonol. Roedd y gweddill heb ddadansoddiad neu heb ddefnyddio'r holl wybodaeth a oedd ar gael, er enghraifft gan asiantaethau eraill.

3.28 Edrychasom hefyd ar adolygiadau o gynlluniau rheoli risg a chanfuom fod y rhain yn ddigonol mewn dros ddau draean o achosion perthnasol. Roedd y prif ddiffygion yn ymwneud â rhagweld newidiadau posibl mewn ffactorau risg o niwed a datblygu cynlluniau cadarn wrth gefn.

3.29 Mae gan oruchwyliaeth rheolwyr rôl bwysig mewn sicrhau bod y broses asesu a rheoli risg yn effeithiol. Mewn achosion risg uchel o niwed difrifol lle'r oedd pryderon ynghylch amddiffyn plant, canfuom oruchwyliaeth rheolwyr mewn 16 yn unig o'r 28 o achosion lle barnwyd gennym fod hyn yn angenrheidiol. Canfuom nad oedd yr ymwneud hwnnw'n effeithiol ond mewn chwech o'r achosion hynny, ac rydym o'r farn fod hwn yn faes lle mae angen gwelliant gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol.

3.30 Gellir gweld crynodeb o'n canfyddiadau allweddol ynghylch adolygu'r gwaith gyda'r troseddwr yn ffigur 10.




## Argymhellion

- Dylai'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol wella ansawdd ei asesiadau llawn ar gyfer risg o niwed, yn enwedig o safbwynt dadansoddi a rheoli risg o niwed i blant. (3.9, 3.24)
- Dylai'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol sicrhau bod cynllun rheoli cadarn ac amserol ar waith ar gyfer pob achos risg uchel o niwed difrifol. (3.11)

# 4. Torri ac uwchgyfeirio achosion a reolwyd yn wreiddiol gan y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol

### Cyflwyniad

Disgwylir i Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol gyfeirio unrhyw achos lle mae angen camau gorfodi gan y llys i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a fydd, os rhoddir yr wybodaeth gywir iddynt, a'u bod yn barnu fod hyn yn addas, yn cychwyn gweithrefnau toriadau.

Yn ogystal, lle goruchwylir achos gan Gwmni Adsefydlu Cymunedol a'r rheolwr troseddwr yn credu bod y risg o niwed a berir gan y troseddwr wedi cynyddu i risg uchel, rhaid i'r achos gael ei gyfeirio at y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol gan ddefnyddio proses a elwir yn 'adolygu risg'. Cyflawnir y broses hon gan y rheolwr troseddwr sy'n goruchwylio ac fe'i hadolygir gan y rheolwr llinell. Mae pedwar canlyniad posibl:

- Os yw'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn credu bod y trothwy risg uchel o niwed wedi cael ei groesi rhaid iddynt dderbyn y trosglwyddiad
- Gall y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol benderfynu bod angen gwybodaeth bellach cyn i benderfyniad gael ei wneud, ac os felly rhaid i'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol gasglu'r wybodaeth hon
- Gall y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol benderfynu nad yw'r achos wedi cyrraedd y trothwyd ar gyfer risg uchel o niwed ac felly rhaid i'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol gadw'r cyfrifoldeb am ei reoli
- Gall y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ohirio'r achos am adolygiad risg pellach ar amser penodol.

## Canfyddiadau gorfodi

### Trwyddedau

4.1 Nid yw adalw trwydded bob amser yn dangos bod y risg o niwed difrifol y mae'r troseddwr hwnnw'n ei beri wedi cynyddu ac mae gan y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol ddisgresiwn i adalw achosion trwydded heb eu huwchgyfeirio hwy i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Byddai'r achos yn aros gyda Chwmni Adsefydlu Cymunedol trwy unrhyw gyfnod adalw tymor byr hyd at ail-ryddhau ar drwydded neu ddiwedd y ddedfryd. Awgrymai staff Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol y buom yn siarad â hwy fod adalwadau'n gyffredinol yn gysylltiedig â chynnydd yn y tebygolrwydd o aildroseddu gan droseddwyr cyson a reolir o fewn timau Rheoli Integredig Troseddwyr.

4.2 Roedd saith o achosion trwydded Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a oedd yn gofyn am gamau gorfodi ac nad ymdriniwyd â hwy dan weithdrefnau uwchgyfeirio risg. Arweiniodd tri at adalwad safonol a dau mewn adalwad tymor sefydlog. Roedd yr adalwadau'n ymwneud ag aildroseddu cyson pellach ac mewn un achos roedd y troseddwr wedi gadael uned adsefydlu cyffuriau. Mewn un arall, roedd y troseddwr wedi torri gwaharddiad o barth eithrio sawl gwaith. Nid oedd dim o'r amgylchiadau hyn, yn ein barn ni, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol uwchgyfeirio'r achosion i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol gan ddefnyddio'r gweithdrefnau uwchraddio risg, ac ym mhob achos roedd y camau a gymerwyd gan y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn rhai addas.

4.3 Yn ein hadroddiad cynharach canfuom ddiffyg eglurder ymysg staff Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol ynghylch pa bryd y dylai achos fod yn destun adolygiad risg ac uwchgyfeirio

posibl at y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Yn yr arolygiad hwn, roedd gan staff well dealltwriaeth o'r broses ar gyfer adnabod pa achosion a oedd yn gymwys ar gyfer y broses uwchgyfeirio a pha rai nad oedd. Dywedodd aelod o staff mewn un lleoliad eu bod wedi cael eu cynghori i adalw achos gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn lle dilyn y weithdrefn uwchgyfeirio risg, ond nid ymddangosai hyn fel petai'n broblem gyffredinol. Yn gyffredinol, teimlem fod yr achosion priodol yn cael eu hadalw'n uniongyrchol gan y Cwmnïau Asefydlu Cymunedol.

**Dedfrydau Cymunedol**

4.4 Edrychasom ar y rhyngwyneb gorfodi rhwng y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Canfuom, allan o'r 119 o achosion perthnasol a oedd wedi derbyn dedfryd gymunedol, fod 15 achos wedi eu cyfeirio at y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'u dychwelyd i'r llys wedi torri amod. O'r rhain, roedd naw wedi cael eu profi, pedwar heb gael eu cwblhau a dau wedi cael eu tynnu'n ôl.

4.5 Gan ddefnyddio'r un offeryn arolygu ag yn ein hadroddiad cynharach, fe wnaethom geisio data ar:

- y nifer o ddyddiau a gymerwyd o'r torri amod honedig hyd at y cyfeirio i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- y nifer o ddyddiau a aeth heibio cyn i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol wneud cais am ddyddiad llys
- y nifer o ddyddiau at y gwrandawiad llys cyntaf
- y nifer o ddyddiau tan cwblhau'r achos, os gwnaed hynny.

4.6 O'r blaen, roeddem wedi adnabod diffygion yn sut roedd y broses orfodi wedi cael ei chofnodi ar nDelius. Canfuom fod hyn yn wir yn yr arolygiad hwn yn ogystal ac, felly, roedd yn anodd cael yr wybodaeth yr oeddem yn ei cheisio. Yn gyffredinol, fe wnaethom asesu bod ychydig o dan hanner yr achosion perthnasol (7 allan o 15) yn cael eu rheoli'n briodol trwy'r broses orfodi. Yn yr achosion hynny nad oedd, gwelsom ddau achos nad oedd wedi cael eu trosglwyddo i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol mewn pryd i gyrraedd y graddfeydd amser gofynnol am dorri amod. Roedd pum achos lle'r oedd y cofnodion o'r wybodaeth gywir ar nDelius yn aneglur ac un achos lle nad oedd dim wedi ei gofnodi.

4.7 Dywedodd rheolwyr canolig mewn amryw o Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol wrthym eu bod wedi profi anawsterau wrth ymdrin âthorri amodau. Roedd canfyddiad mewn rhai Unedau Cyflawni Lleol fod lefel uchel o wrthod pecynnau toriadau a oedd, mewn rhai achosion, wedi arwain at achosion yn peidio â symud ymlaen at fod yn dorri amod yn y pen draw. Canfuom hefyd, fodd bynnag, fod prosesau yn ymwreiddio mewn Unedau Cyflawni Lleol eraill a bod gwrthod pecynnau torri amodau yn gostwng. Lle'r oedd y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol wedi sefydlu prosesau sicrhau ansawdd mewnol i sicrhau pecynnau torri amodau o ansawdd uchel, megis yng Ngogledd Cymru, roedd y nifer o ddychweliadau wedi gostwng yn ddramatig. Roedd rhai rheolwyr troseddwyr Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn feirniadol o'r nifer uchel o wrthodiadau am yr hyn yr oeddent yn eu disgrifio fel mân wallau sillafu neu gamgymeriadau gramadegol. Hefyd, roedd canfyddiad ymysg staff o sawl gwahanol Uned Gyflawni Lleol bod eu dyfarniad yngylch eu hasesiadau a'u cynigion mewn adroddiadau torri amodau yn cael eu hamau gan y rheini nad oedd ganddynt wybodaeth ddigonol o'r achos.

4.8 Dywedodd rhai o reolwyr y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol eu bod hwythau hefyd wedi gweld cyfraddau gwrthod uchel am becynnau torri amodau. Hefyd, teimlai rhai y gellid gwella ansawdd pecynnau'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol trwy hyfforddiant ar beth oedd yn cyfrif fel tystiolaeth mewn torri amod.

4.9 Gwelsom rai Unedau Cyflawni Lleol lle'r oedd unedau gorfodi'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ar waith ac yn ymdrin â phob achos torri amod. Mewn eraill roedd trefniadau mwy lleol; fodd bynnag, roedd gan yr holl Unedau Cyflawni Lleol y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol staff arbenigol yn erlyn achosion. Roedd effeitholrwydd y system yn ein barn ni yn ddibynnol iawn ar ansawdd y cyfathrebu rhwng staff y Cwmni Adsefydlu Cymunedol a

oedd yn gorfodi'r achos a staff y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a oedd yn ei erlyn. Mewn rhai achosion roedd angen gwella ansawdd y cyfathrebu.

4.10 Yn ein hadroddiad cynharach, canfuom fod y broses torri amodau yn y mwyafrif o achosion yn cael ei rheoli'n effeithlon gan y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Yn yr arolygiad hwn canfuom fod perfformiad wedi llithro'n gyffredinol, gydag angen am welliant sylweddol gan rai Unedau Cyflawni Lleol.

**Canfyddiadau uwchgyfeirio risg**

4.11 Yn ogystal â'r prif sampl, archwiliasom 51 o achosion adolygu risg. Yn gyffredinol, fe wnaethom nodi gwelliant mewn arferion yn y maes hwn o waith, ers ein harolygiad diwethaf. Roedd staff a rheolwyr yn fwy hyderus ac roedd mwy o fuddsoddi yn y broses a gwell dealltwriaeth ohoni. Roedd angen gwella'r ffordd o gofnodi'n broses ar nDelius, fodd bynnag. Canfuom ormod o achosion lle nad oedd ffurflenni adolygu risg yn cael eu cwblhau'n llawn, nad oeddent wedi cael eu lanlwytho neu lle'r oedd dilyniant ac amser digwyddiadau yn aneglur yn y cofnod.

4.12 Canfuom fod rhywfaint o ddadlau rhwng rheolwyr Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ynghylch sefyllfaoedd lle'r oedd troseddwyr yn cael eu harestio neu eu cyhuddo am droseddu difrifol pellach ond nad oedd wedi cael eu collfarnu eto. Mewn rhai Unedau Cyflawni lleol roedd nifer o achosion wedi cael eu huwchgyfeirio ar y sail hon, ond heb unrhyw gollfarnau o ganlyniad i hynny, gan adael y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol gydag achos nad oedd wedi ei ddosbarthu fel un risg uchel o niwed difrifol. Roeddem yn gweld rhywfaint o rinwedd mewn mecanwaith i ganiatáu dad-uwchgyfeirio achosion yn yr amgylchiadau hynny.

4.13 Ym mron pob achos perthnasol roedd y rhesymau dros atgyfeirio yn eglur ac roeddem yn cefnogi'r penderfyniad i gychwyn y weithdrefn uwchgyfeirio. Mae'r canllawiau'n nodi y dylid, wrth ystyried atgyfeiriad, gynnal trafodaeth anffurfiol gyda'r rheolwr Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a enwebwyd fel y pwynt cyswllt sengl. Canfuom fod hyn yn digwydd mewn bron i ddau draean o achosion. Canfuom fod dogfen ffurfiol ar gyfer atgyfeirio risg yn cael ei chwblhau ym mron pob achos perthnasol. Barnasom fod atgyfeirio risg o safon resymol ac yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol i alluogi penderfyniad mewn ychydig dros dri chwarter o'r achosion a arolygwyd gennym.

4.14 Roedd y cyswllt cyntaf rhwng y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn digwydd o fewn 24 awr o atgyfeirio mewn 33 allan o 39 (85%) o'r achosion perthnasol. Gofynnodd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol am wybodaeth bellach mewn chwech o'r achosion hynny. Derbyniodd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yr adolygiad risg ac uwchraddio'r achos mewn 79% o'r atgyfeiriadau hynny, gwrthodwyd 7 a chafodd lleiafrif bach eu nodi ar gyfer adolygiad pellach yn y dyfodol.

4.15 Roedd gweithgaredd yn ymwneud â'r broses atgyfeirio risg yn cael ei gofnodi'n glir yn y system rheoli achosion mewn ychydig dros hanner yr achosion a arolygwyd. Roedd y problemau cyffredin a welsom yn cynnwys:

- methiant i arwyddo ffurflenni atgyfeirio gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn ogystal â'r Cwmnïau Adefydlu Cymunedol
- nid oedd yr holl drafodaethau ynghylch yr adolygiad risg yn cael eu cofnodi ar nDelius
- nid oedd y ddogfennaeth adolygu risg yn cael ei chwblhau'n llawn
- nid oedd y ddogfennaeth yn cael ei lanlwytho i nDelius mewn pryd.

4.16 Dywedwyd wrthym am broblem a brofwyd mewn rhai Unedau Cyflawni Lleol yr ymwelasom â hwy wrth lanlwytho ffurlenni'r adolygiad risg i nDelius. Gwelsom welliant yn ansawdd ac amlder y ffurflenni adolygu risg ar nDelius wrth i amser symud ymlaen. Dywedodd un arolygydd:

"*Er bod ansawdd yr asesiad yn y ddogfennaeth adolygu risg wedi ei gwblhau i safon dda, nid oedd wedi cael ei arwyddo gan reolwr y Cwmni Adsefydlu Cymunedol ac, felly, roedd yn*

*anghyflawn. Cafodd y broses ei chwblhau o fewn y raddfa amser, ond nid oedd yr holl drafodaethau perthnasol wedi eu cofnodi ar nDelius*".

4.17 Roedd nifer o ddulliau o reoli'r broses adolygu risg. Roedd rhai o adrannau'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol wedi sefydlu timau rheoli arbenigol i asesu atgyfeiriadau. Roedd gan Unedau Cyflawni Lleol eraill weithdrefnau ar waith yn eu swyddfa leol, neu swyddogion penodol yn gyfrifol am ardaloedd daearyddol. Mewn rhai Unedau Cyflawni Lleol teimlai'r staff fod y broses yn glir ac yn effeithiol, roedd eraill yn disgrifio'r broses fel un a oedd yn tanseilio eu sgiliau ac un drwsgl a dryslyd. Canfuom nad oedd effeithiolrwydd yn ddibynnol ar y math o system; gwelsom enghreifftiau o systemau tebyg yn gweithio'n dda mewn rhai Unedau Cyflawni Lleol ac yn wael mewn eraill. Lle'r oedd y broses yn effeithiol, gwelsom dystiolaeth o ddeialog agored ac adeiladol rhwng staff a rheolwyr perthnasol.

4.18 Mewn un ardal, dywedwyd wrthym fod cyfraddau uwchgyfeirio llwyddiannus cyn ised â chwarter o'r achosion a atgyfeiriwyd a gwelsom beth tystiolaeth i gefnogi hyn. Dywedodd staff wrthym eu bod yn aml yn peidio â chwblhau dogfennaeth adolygu risg gan mai'r teimlad oedd mai anaml y derbynnid achosion; mae hyn yn sefyllfa sy'n peri pryder. Mae'r broses adolygu risg yn ei lle er mwyn sichrau y gellir, lle bod pryderon bod y risg i niwed difrifol yn cynyddu, ailddyrannu'r achos i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol sydd â'r adnoddau i reoli'r risg o niwed difrifol. Roeddem yn anghytuno â phenderfyniad y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol i dderbyn neu wrthod atgyfeiriad yr adolygiad risg mewn 5 o'r 43 o achosion perthnasol (12%). Lle'r oeddem yn anghytuno, teimlem fod penderfyniad y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn un y gellid ei amddiffyn mewn dau o'r achosion hynny. Ein barn ni yw inni weld gwelliant cyffredinol ynghylch y materion a nodwyd yn ein hadroddiad blaenorol mewn pump o'n hymweliadau arolygu, ond nid ym mhob un o'r chwech.

4.19 Yn y mwyafrif o'r Unedau Cyflawni Lleol a arolygwyd gennym, fodd bynnag, canfuom welliant ar y sefyllfa a ganfuom yn ein harolygiad cynharach. Dros amser, mae mwy o brofiad gyda'r broses adolygu risg wedi arwain at staff a rheolwyr yn dod yn fwy cyffyrddus gyda'r broses ac at welliant yn ansawdd yr adolygiad.

## Argymhellion

- Dylai Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol wella ansawdd eu cofnodi gwybodaeth yn ymwneud â'r weithdrefn uwchgyfeirio adolygu risg a'r broses ymdrin â thorri. (4.6, 4.15, 4.16)

# 5. Barn troseddwyr

## Cyflwyniad

Cynigiasom gyfle i droseddwyr yn ein sampl i gymryd rhan mewn cyfweliad gyda'r arolygwyr. Cyfwelasom â chyfanswm o 36 o droseddwyr gan ddefnyddio offeryn cyfweld lled-strwythuredig. Ym mhob ardal llwyddasom i siarad gyda rhai troseddwyr o'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ac o'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol. Yn gyffredinol, roedd 10 unigolyn yn cael eu rheoli gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a 26 gan y Cwmni Adsefydlu Cymunedol; roedd rhai wedi bod yn ddarostyngedig uwchgyfeirio yn sgil risg cynyddol ac roeddent felly wedi cael eu goruchwylio gan y ddau sefydliad. Roedd dau draean o'r troseddwyr yn ddarostyngedig i ddedfryd gymunedol, roedd y gweddill ar drwydded.

## Canfyddiadau

### Adroddiadau llys

5.1 Roedd bron bawb o'r troseddwyr y cyfwelwyd â hwy wedi cael adroddiad a baratowyd cyn y dedfrydu, er na allai'r mwyafrif gofio pa fath o adroddiad a baratowyd. Roedd eu hatgof o gywirdeb a thegwch yr adroddiad yn gadarnhaol ar y cyfan. Teimlai lleiafrif o unigolion fod eu hadroddiad yn annheg neu'n anghywir. Canfuom fod troseddwyr yn teimlo mai'r maes lle gellid gwneud y gwelliant mwyaf i adroddiadau oedd rhoi ystyriaeth i amgylchiadau unigol megis iechyd neu ofal plant, rhwystrau a allai lesteirio cydweithrediad. Dyma rai o sylwadau'r troseddwyr:

*"Cymerodd awdur yr adroddiad lawer o amser gyda mi gan fy mod yn mynd yn ofidus ac yn cael fy llethu, esboniodd y broses, beth fyddai yn yr adroddiad a'i argymhelliad. Fe wnaeth dawelu fy meddwl."*

*"Nid oedd yn adroddiad teg, yn yr ystyr fod ffeithiau honedig nad oedden nhw'n ffeithiau ond a ymddangosodd yn yr achos llys. Roedd yr adroddiad yn crybwyll pethau na chafodd eu defnyddio gan yr erlyniad. Fe wnes i godi'r pwynt cyn y dedfrydu ond ni allaf gofio'r ymateb."*

### Ymsefydlu

5.2 Gall cychwyn y gorchymyn neu'r drwydded yn gadarnhaol gael effaith mawr ar ganlyniadau yn y dyfodol. Gofynasom i droseddwyr ynghylch eu profiad o hyn. Dywedodd y mwyafrif y dywedwyd wrthynt lle i fynd yn dilyn dedfrydu a hynny naill ai at Gwmni Adsefydlu Cymunedol neu'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Rhoddwyd apwyntiadau gan swyddogion llys yn dilyn dedfrydu neu mewn rhai achosion roedd y troseddwyr eisoes yn destun goruchwyliaeth ac apwyntiadau pellach ganddynt.

5.3 Dywedodd pawb ond un o'r troseddwyr a gyfwelasom iddynt fod trwy ymsefydlu ffurfiol lle cafodd y rheolau, disgwyliadau a chanlyniadau am beidio â bod yn bresennol eu hesbonio'n glir. Yn gyffredinol, dywedodd ychydig dros dri chwarter y troseddwyr wrthym iddynt gael eu hymsefydlu gan eu rheolwyr troseddwyr. O fewn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol roedd hyn yn codi i 89% ac yn y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn disgyn i 70%, gyda mwy o droseddwyr yn y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn profi ymsefydlu mewn grŵp. Roedd troseddwyr bron yn gyfan gwbl gadarnhaol yngylch eu profiadau ymsefydlu; nid oeddent yn gwahaniaethu rhwng gwerth ymsefydlu unigol ac ymsefydlu mewn grŵp. Y peth allweddol oedd a oedd y dull a ddefnyddiwyd yn rhoi dealltwriaeth glir iddynt o'r hyn a ddisgwylid ganddynt. Roedd yr unig ymateb negyddol wedi'i gyfeirio at y diffyg eglurder a roddwyd mewn ymsefydlu unigol.

*"Roedd fy ymsefydlu gyda rheolwr troseddwr; roedd hi'n onest iawn gyda mi ac yn glir ar y rheolau, wnes i erioed golli apwyntiad."*

*"Nid oedd mor glir â hynny, cefais fy arwain i gredu nad oedd hawl gennyf i adael y Deyrnas Unedig, ond nid oedd hynny'n gywir. Roedd yn bwysig gan y gallwn fod wedi ei dorri yn ddiarwybod."*

*"Rhoddwyd yr wybodaeth yr oedd arnaf ei hangen a gwyddwn beth oedd yn mynd i ddigwydd."*

## Cydymffurfio a gorfodi

5.4 Buom yn holi troseddwyr ynghylch pa mor dda roeddent wedi cydymffurfio â'u gorchymyn neu drwydded. Dywedodd ychydig dros ddau draean eu bod wedi cadw at bob apwyntiad. Gwelsom dystiolaeth o'r cyfweliadau o staff yn adnabod rhwystrau rhag cydweithredu ac yn mynd i'r afael â hwy. Roedd troseddwyr wedi deall yn glir yr angen am dystiolaeth pam nad oeddent yn bresennol ac mewn sawl achos wedi darparu tystiolaeth yn ffurf tystysgrifau meddygol a gwaith. Dywedodd rhai troseddwyr:

*"Mae'r Gwasanaeth Prawf wedi deall yn iawn pan nad oeddwn i'n gallu gwneud apwyntiadau oherwydd materion iechyd neu ofal plant."*

*"Fe wnes i gadw pob apwyntiad ac eithrio'r rheini y gofynnais iddynt gael eu hail-drefnu oherwydd gwaith."*

5.5 O'r rheini a gyfaddefodd nad oeddent wedi bod yn bresennol yn ôl y gofyn, roedd chwarter naill ai wedi derbyn rhybudd neu wedi cael eu dychwelyd i'r llys. Nid oedd gan ddim un o'r troseddwyr hyn sylw negyddol i'w wneud am eu rhybudd neu doriad, ac ymddangosent fel petaent yn derbyn y sefyllfa. Dau droseddwr yn unig a ddywedodd wrthym iddynt gael eu harestio, eu rhybuddio neu eu cyhuddo am droseddu pellach ers i'r gorchymynd neu drwydded gyfredol gychwyn.

## Trafod gyda'u rheolwyr

5.6 Buom yn holi troseddwyr ynghylch pa mor aml yr oeddent yn gweld eu rheolwr troseddwr. Yn y sampl hwn ychydig dros hanner y troseddwyr oedd yn gweld eu rheolwr troseddwr unwaith yr wythnos. Roedd dau yn cael eu gweld fwy nag unwaith yr wythnos, a bron i ddau o bob pump naill ai pob pythefnos neu'n fisol. Yn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, roedd 60% o achosion yn cael eu gweld yn wythnosol, 20% bob pythefnos a 10% yn fisol. Roedd un achos wedi dod i ben. O fewn y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol, roedd 54% o achosion yn cael eu gweld yn wythnosol, 23% pob pythefnos a 15% yn fisol. Roedd un troseddwr yn ansicr o'r rhesymau dros amlder y trefniadau i gyfarfod gyda'i reolwr troseddwr, gan ddweud:

*"Arferai [fy apwyntiadau] fod yn wythnosol – cefais rai cysylltiadau dros y ffôn adeg y Nadolig. Gwelais hi [y rheolwr troseddwr] ym mis Ionawr. Ymddengys bellach fod hyn bob mis neu alwad ffôn. Rwyf i fod i gael galwad ffôn ar 26 Mawrth ac wedyn byddaf yn ei gweld hi ar ddiwedd mis Ebrill. Ni esboniwyd hyn wrthyf – rwyf yn hapus mai dyma'r trefniant. Disgwyl cael mynd ar raglen – nid wyf yn cofio'i henw. Dim syniad pryd y bydd hyn yn cychwyn."*

5.7 Roedd un arall nad oedd yn gweld ei reolwr troseddwr, ond gweithiwr arall:

*"Rwyf yn gweld y Gweithiwr Diogelwch Merched [WSW] unwaith bob tair neu bedair wythnos. Rydym yn siarad am unrhyw broblemau a gefais a'r cynnydd yr wyf wedi'i wneud.*

*Fe wnaeth y WSW grybwyll y drosedd yn y cyfarfod diwethaf yr wythnos ddiwethaf – esboniais pam y gwnes i hynny."*

5.8 Ychydig o anfodlonrwydd a ganfuom ymysg troseddwyr gyda'r gwasanaethau neu natur y cyswllt gyda'u rheolwyr troseddwyr. Teimlai dros hanner y troseddwyr a gyfwelwyd nad oedd ganddynt ddim yn digwydd yn eu bywyd a oedd yn rhwystr sylweddol rhag cyflawni'r hyn roedd arnynt ei eisiau o safbwynt lleihau troseddu pellach. Teimlai bron bawb ohonynt fod eu rheolwyr troseddwyr yn eu helpu cymaint ag oedd yn bosibl. Dyma rai o'u sylwadau:

*"Mae fy mhroblemau iechyd meddwl yn fy rhwystro rhag gwneud cynnydd. Rwyf yn dioddef o ofid, anhwylder prersonoliaeth a PTSD [anhwylder straen wedi trawma]. Do, fe wnaeth hi fy annog i fynd i'r clinig anhwylder personoliaeth, rhywbeth na fyddwn i wedi'i wneud i neb arall. Mae hi'n swyddog prawf rhyfeddol sydd wedi cael effaith gwirioneddol arnaf o ran fy nhawelu, dylanwad gwirioneddol gadarnhaol."*

*"Mae'r OM [rheolwr troseddwr] yn wych. Mae'n esbonio pethau – ni allaf feio pawb arall. Mae angen imi dyfu i fyny."*

5.9 Roedd yr unig sylwadau negyddol yn ymwneud â phroblemau llety a allai fod wedi bod y tu hwnt i reolaeth rheolwyr troseddwyr eu datrys. Dywedodd un troseddwr wrth ei reolwr troseddwr:

*"Os oes gennych chi'r grym i'm hanfon i'r carchar dylai fod gennych hefyd y grym i'm helpu i gael hyd i dŷ."*

**Gwaith sy'n canolbwyntio ar droseddau**

5.10 Calondid inni oedd canfod bod pawb ond dau o'r troseddwyr a gyfwelwyd wedi trafod eu trosedd gyfredol gyda'u rheolwyr troseddwyr. Roedd adborth yn dangos bod gwaith a oedd yn canolbwyntio ar droseddau wedi cael sylw'n gynnar yn y gorchymyn neu drwydded, ac mewn llawer o achosion roedd y rheolwyr troseddwyr wedi parhau i ganolbwyntio'n llwyddiannus drwy gydol y gorchymyn neu drwydded. Dyma rai o'r sylwadau cadarnhaol:

*"Rydym wedi trafod fy nhroseddau a'r effaith y mae'r drosedd wedi'i chael ar y bobl yn fy mywyd."*

*"Rydym yn siarad am bopeth, sut mae'r wythnos wedi bod, ac unrhyw bwnc o gwbl. Ydym, rydym yn siarad am fy nhrosedd; mae hi'n dweud wrthyf beth allaf ei wneud a beth i beidio â'i wneud. Mae sgyrsiau'n ddefnyddiol. Mae'n rhywun y gallaf siarad â hi, un-i-un, mae'n helpu."*

*"Rydym yn ddiweddar wedi bod yn gwneud yr effaith ar ddioddefwyr. Sut mae'n peri gofid i'r cyhoedd yn gyffredinol a phobl o'm cwmpas. Rwyf yn cymryd nodiadau ac mae hyn yn fy helpu i reoli fy nefnydd o alcohol. Mae wedi fy helpu i beidio ag ysmygu cannabis. Rwyf wedi lleihau fy nefnydd o alcohol a cannabis ers gweithio gyda fy OM [rheolwr troseddwr]."*

5.11 Hyd yn oed yn y ddau achos lle teimlai'r troseddwyr nad oedd y drosedd gyfredol yn cael ei thrafod yn uniongyrchol, roedd yn amlwg o'u sylwadau fod rheolwyr troseddwyr wedi adnabod naill ai modd i fynd i'r afael â phroblemau perthnasol, neu feysydd blaenoriaeth gwaith i leihau'r risg o aildroseddu. Gwrthododd un â thrafod ei drosedd gan ddweud:

*"Gwrthodaf siarad ynghylch fy nhrosedd benodol gan fy mod i'n mynd yn ofidus ac yn cael fy llethu yn sgil fy mhroblemau iechyd meddwl. Rwyf yn hapus i siarad am sefyllfaoedd gyda fy swyddog."*

Dywedodd y llall:

"*Llety a chyffuriau yw'r hyn y canolbwyntir arno*."

5.12 Mae'r canfyddiadau uchod yn debyg i'r hyn a ganfuom yn ein harolygiad cynharach. Mae'r mwyafrif llethol o droseddwyr yn fodlon gyda'r gwasanaethau a'r cymorth a dderbyniasant gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol ar bob cam o'r broses asesu a goruchwylio. Roedd adroddiadau llys yn cael eu gweld fel rhai cywir a theg ar y cyfan, roedd yr ymsefydlu yn rhoi gwybodaeth ac roedd yn glir ynghylch disgwyliadau. Teimlai troseddwyr fod eu rheolwyr troseddwyr, yn y mwyafrif o achosion, yn eu helpu cymaint ag y gallent i wneud cynnydd. Lle'r oedd camau gorfodi, nid oedd troseddwyr yn negyddol ynghylch y rhesymau na'r broses. Fel y nodwyd yn ein hadroddiad blaenorol, mae newidiadau mawr wedi bod i ddarpariaeth gwasanaethau i droseddwyr trwy gyflwyno darparwyr a phrosesau newydd. O safbwynt y troseddwr, nid ymddengys fod y newidiadau hyn wedi cael effaith negyddol.

# Atodiad 1

## Cydnabyddiaeth

Hoffem ddiolch i bawb o'r staff o'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol y gwnaethom eu harolygu am eu cymorth wrth drefnu'r arolygiad.

| | |
|---|---|
| **Prif Arolygydd** | Jon Nason, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi* |
| **Tîm Arolygu** | Jane Atwood, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi* |
| | Mark Boother, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi* |
| | Joe Coleshill, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi* |
| | Jenny Daly, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi* |
| | Helen Davies, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi* |
| | Jo Dowling, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi* |
| | Yvette Howson, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi* |
| | Iolo Madoc-Jones, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi* |
| | Nicola McCloskey, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi* |
| | Sue McGrath, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi* |
| | Yvonne McGuckian, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi* |
| | Caroline Nicklin, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi* |
| | Amanda Paterson, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi* |
| | Tony Rolley, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi* |
| | Nigel Scarff, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi* |
| | Mark Scott, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi* |
| | Joe Simpson, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi* |
| | Les Smith, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi* |

| | |
|---|---|
| | Steve Woodgate, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi* |
| **Gwasanaethau Cymorth Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi** | Kevin Ball, *Uwch Swyddog Ymchwil* |
| | Pippa Bennett, *Rheolwr Gwasanethau Cymorth* |
| | Adam Harvey, *Swyddog Gwasanaethau Cymorth* |
| | Oliver Kenton, *Swyddog Ymchwil Cynorthwyol* |
| | Lynne Osborn, *Swyddog Gwasanaethau Cymorth* |
| | Alex Pentecost, *Rheolwr Cyfathrebu* |
| **Prif Arolygwyr Cynorthwyol** | Helen Davies, Alan MacDonald, Sally Lester |

# Geirfa

| | |
|---|---|
| *Rhaglen achrededig* | Cyrsiau strwythuredig i droseddwyr sydd wedi cael eu cynllunio ar gyfer adnabod a lleihau'r ffactorau sy'n gysylltiedig â'u hymddygiad troseddol. Ar ôl eu gwerthuso, mae cynllun y rhaglenni wedi cael eu hachredu gan banel o arbenigwyr. |
| *Dyrannu* | Y broses o benderfynu a fydd troseddwr yn cael ei oruchwylio gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol neu Gwmni Adsefydlu Troseddwyr. |
| *Aseinio* | Y broses o gysylltu troseddwr â rheolwr troseddwr unigol a fydd yn trefnu ac yn cydgysylltu'r holl ymyraethau i gael eu cyflawni yn ystod eu dedfryd. |
| *System Dyrannu Achosion (CAS)* | Dogfen y mae angen ei chwblhau cyn dyrannu achos i Gwmni Adsefydlu Cymunedol neu'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. |
| *Cwmni Adsefydlu Cymunedol (CRC)* | Cafodd 21 o gwmnïau o'r fath eu sefydlu ym mis Mehefin 2014, i reoli'r mwyafrif o droseddwyr sy'n peri risg isel neu ganolig o niwed difrifol. |
| *Amddiffyn plant* | Gwaith i sicrhau bod popeth rhesymol wedi cael ei wneud i sicrhau'r isafswm o risg i blentyn gael ei niweidio. |
| *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi* | Yr arolygiaeth sy'n gyfrifol am arolygu'r Gwasanaeth Prawf |
| *Ymyraethau; ymyryaethau adeiladol a rhai cyfyngol* | Gwaith gydag unigolyn sydd wedi ei gynllunio i newid ei ymddygiad troseddol a/neu helpu amddiffyn y cyhoedd.<br>Ymyrraeth adeiladol yw lle mai'r prif ddiben yw lleihau'r tebygolrwydd o aildroseddu.<br>Ymyrraeth gyfyngol yw lle mai'r prif ddiben yw sicrhau bod risg yr unigolyn o beri niwed difrifol i eraill yn cael ei gadw i'r isafswm posibl.<br>Enghraifft: gyda throseddwr rhyw, gallai ymyrraeth adeiladol olygu eu rhoi trwy raglen achrededig ar gyfer troseddwyr rhyw; gallai ymyrraeth gyfyngol (i leihau eu risg o niwed difrifol) olygu monitro'n rheolaidd ac yn drylwyr eu llety, eu gwaith, a'r mannau y maent yn eu mynychu, gosod a gorfodi cyfyngiadau clir fel bo'n addas i bob achos.<br>Noder. Mae'r ddau fath o ymyrraeth yn bwysig. |
| *Rheoli Integredig Troseddwyr (IOM)* | Trefniadau amlasiantaethol i weithio gyda'r troseddwyr hynny a gaiff eu hystyried fel y rhai sydd fwyaf tebygol o aildroseddu; yn gyffredinol mae'r trefniadau'n cynnwys staff yn gweithio i'r heddlu, y gwasanaeth prawf gwasanaethau triniaeth cyffuriau ac eraill. |
| *Uned Gyflawni Lleol (LDU)* | Uned weithredu sy'n cynnwys swyddfa neu swyddfeydd, yn gyffredinol yn cyd-ffinio ag unedau gorchymyn sylfaenol yr heddlu a strwythurau awdurdodau lleol. |
| *MAPPA* | Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd: lle mae'r gwasanaeth prawf, yr heddlu, y carchar ac asiantaethau eraill yn gweithio gyda'i gilydd yn lleol i reoli troseddwyr sy'n peri risg uwch o niwed difrifol i eraill. |
| *Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol* | Gwasanaeth cenedlaethol sengl a ddaeth i fod ym mis Mehefin 2014. Ei rôl yw cyflawni gwasanaethau i lysoedd a'r bwrdd parôl; a rheoli grwpiau penodol o droseddwyr:<br>• Y rheini sy'n peri risg uchel neu risg uchel iawn o niwed difrifol.<br>• Y rheini a reolir o dan drefniadau MAPPA. |

| | |
|---|---|
| | • Y rheini â sgôr Risg Aildroseddu Difrifol o dros 6.89%.<br>• Y rheini sy'n gymwys i'w halltudio.<br>• Y rheini sy'n destun dedfryd wedi'i gohirio.<br>• Y rheini lle mae'r achos yn ymwneud â 'buddiannau'r cyhoedd'. |
| *nDelius* | National Delius: y system i reoli achosion y gwasanaeth prawf cenedlaethol a gafodd ei chyflwyno'n raddol yn ystod 2013 a dechrau 2014. |
| *Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS)* | Yr asiantaeth sengl sy'n gyfrifol am garchardai a'r gwasanaethau prawf. |
| *OASys* | System Asesu Troseddwyr: Y fframwaith cenedlaethol a gynlluniwyd ac a baratowyd ar gyfer y Gwasanaethau Prawf a Charchardai i asesu troseddwyr, a weithredwyd fesul camau o fis Ebrill 2003. |
| *Rheoli troseddwyr* | Un o egwyddorion craidd rheoli troseddwyr yw bod rheolwr troseddwr unigol yn cymryd cyfrifoldeb am reoli troseddwr trwy'r cyfnod o amser y maent yn cyflawni eu dedfryd, boed yn y ddalfa neu yn y gymuned. Caiff troseddwyr eu rheoli'n wahanol gan ddibynnu ar eu risg o niwed difrifol i eraill a pha ymyraethau adeiladol a chyfyngol sydd eu hangen. Caiff rhaglenni ymyrraeth unigol eu cynllunio a'u cefnogi gan y 'tîm neu rwydwaith rheoli troseddwyr' ehangach, a all gynnwys y rheolwr troseddwr, goruchwyliwr y troseddwr, gweithwyr allweddol a gweinyddwyr achosion. |
| *Rheolwr troseddwr* | Yn iaith rheoli troseddwyr, dyma'r term am y swyddog gyda'r prif gyfrifoldeb o reoli achos penodol o'r dechrau i'r diwedd. |
| *Ymddiriedolaeth Brawf* | Tan fis Mai 2014, byddai gwasanaethau prawf yn cael eu cyflawni gan Ymddiriedolaethau Prawf, sy'n gweithio o dan y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr. |
| *Adroddiad cyn-dedfrydu* | Mae hwn yn cyfeirio at unrhyw adroddiad a baratoir ar gyfer llys, boed yn cael ei gyflwyno'n llafar neu mewn fformat ysgrifenedig. |
| *Risg o Niwed Difrifol* | Term a ddefnyddir yn OASys. Caiff pob achos ei ddosbarthu fel un sy'n peri risg isel/ canolig / uchel/ uchel iawn o niwed difrifol i eraill. Mae Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi'n defnyddio'r term hwn wrth gyfeirio at y system ddosbarthu, ond yn defnyddio'r term mwy cyffredinol risg o niwed wrth gyfeirio at y dadansoddiad sy'n gorfod digwydd er mwyn penderfynu lefel y dosbarthiad. Mae hyn yn helpu gwneud y gwahaniaeth yn fwy eglur rhwng y tebygolrwydd i rywbeth ddigwydd ac effaith/difrifoldeb y digwyddiad. Mae'r term Risg o Niwed Difrifol yn ymgorffori effaith 'difrifol' yn unig, lle bo defnyddio 'risg o niwed' yn ei gwneud yn bosibl i'r sylw angenrheidiol gael ei roi i'r troseddwyr hynny y mae ymddygiad niweidiol llai difrifol yn debygol. |
| *Risg o Aildroseddu Difrifol* | Cyfrifiad actwaraidd o'r tebygolrwydd o'r troseddwr yn cael ei gollfarnu o drosedd rywiol neu dreisgar ddifrifol; cafodd y cyfrifo hwn ei gyflwyno ym mis Mehefin 2014 fel proses ofynnol wrth weithredu Gweddnewid Adsefydlu. |
| *Diogelu* | Y gallu i ddangos bod lles plentyn neu berson ifanc wedi cael ei 'ddiogelu'. Mae hyn yn cynnwys Amddiffyn Plant ond gall fod yn ehangach na hynny. |
| *ViSOR* | Cronfa ddata gyfrifnachol genedlaethol sy'n cynorthwyo MAPPA yw ViSOR. Mae'n hwyluso rhannu gwybodaeth yn effeithiol ar droseddwyr treisgar a rhywiol rhwng tair asiantaeth Awdurdodau Cyfrifol MAPPA (heddlu, gwasanaeth prawf a charchardai). Nid acronym yw ViSOR bellach ond enw ffurfiol y gronfa ddata. |